# Gyda'n gilydd: creu cyngor ysgol uwchradd cryf sy'n cynrychioli pawb.

Gorffennaf 2021

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Rhagair (1):

## Gan Jaqueline Argent, 18, Aelod o Banel Ymgynghorol Comisiynydd Plant Cymru

Mae'r cyngor ysgol yn rhan eithriadol bwysig o fywyd ysgol myfyriwr. Dyma'r corff sy'n hwyluso llais y myfyrwyr ac yn sicrhau eu bod yn chwarae rhan weithredol mewn penderfyniadau. Nod yr adroddiad hwn yw annog mwy o fyfyrwyr i gyfranogi, yn ogystal â gwella ansawdd eu cyfranogiad. Yn y blynyddoedd sy'n dod, ein gobaith yw y byddwn ni'n gweld cynghorau ysgol mwy cynrychioliadol yn cyflawni newidiadau cadarnhaol yn eu sefydliadau.

Mae'r ymchwil yn dangos bod cynghorau ysgol yn gallu bod yn ddiffygiol o ran amrywiaeth. Mae angen i hynny newid, a'r gobaith yw y bydd yr adroddiad hwn yn cychwyn y broses honno. Er mwyn i gynghorau ysgol wneud eu gwaith a gwella profiad myfyrwyr, mae'n rhaid iddyn nhw gynrychioli'r lliaws o hunaniaethau, diwylliannau a phrofiadau sydd gan yr holl fyfyrwyr!

Mae'r Panel Ymgynghorol Pobl Ifanc wedi cydweithio'n agos â thîm Sally i ffurfio'r prosiect hwn. Rwyf innau wedi ymwneud â'r prosiect o'r cychwyn. Fe fues hefyd yn helpu i gyflwyno gweithdai i aelodau eraill o'r Panel Ymgynghorol. Ar hyd y prosiect hwn, fe ges i gyfleoedd niferus i roi mewnbwn, ac roeddwn bob amser yn teimlo mod i'n cael gwrandawiad. Rydw i wedi gallu datblygu fy sgiliau fy hun, a hefyd wedi gwneud gwahaniaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae wedi bod yn gyfle gwych, ac rwy'n falch i mi fod yn rhan ohono!

# Rhagair (2)

## Gan yr Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru

Digwyddodd yr holl waith ymgynghori ar gyfer yr adroddiad hwn cyn y pandemig. Roedd bwriad i gyhoeddi ddiwedd mis Mawrth 2020, ond yn sgîl yr argyfwng oedd yn dod i'r amlwg, penderfynwyd oedi. Mae'r flwyddyn ddilynol wedi bod yn gyfnod anodd iawn i bob lleoliad addysg, sydd wedi wynebu aflonyddu parhaus. Wrth i mi ysgrifennu hwn, yn ail hanner tymor yr haf 2021, mae lleoliadau yn dal i weithredu gyda chyfyngiadau. Ond er gwaethaf hynny, mae'r proffesiwn addysg yn gweithio'n ddiflino i gefnogi plant a phobl ifanc i fod yn hapus, yn ddiogel ac yn iach, i chwarae ac i gymdeithasu, ac i ddysgu, gwneud cynnydd a chyflawni cymwysterau ar ddiwedd y flwyddyn heriol hon.

Mae bellach yn adeg dda i ystyried y ffordd orau o hybu cyfranogiad pobl ifanc wrth symud y gwaith hwn ymlaen y flwyddyn nesa. Ledled Cymru, mae lleoliadau addysg yn ystyried y ffordd orau o wrando ar ddysgwyr a sicrhau bod eu blaenoriaethau'n ganolog wrth gynllunio a chyflawni. Mae gan rai ysgolion ddulliau cyfranogiad datblygedig i wneud hyn, ac o dan y gyfraith mae gan bob ysgol fecanwaith ardderchog — eu cyngor ysgol. Yng Nghymru, cyflwynwyd y ddeddf hon fel rhan o ymrwymiad i egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Dangosodd fy Arolwg Addysg gyntaf ar y Ffordd Gywir yn 2018 fod 42% o bobl ifanc mewn ysgolion uwchradd yn teimlo eu bod yn medru cymryd rhan mewn penderfyniadau yn yr ysgol. Roedd y ffigur hwn yn llawer is na nifer y plant a'r bobl ifanc oedd yn teimlo eu bod yn medru cyfranogi mewn penderfyniadau mewn lleoliadau eraill, megis ysgolion cynradd (72%) ac ysgolion addysg arbennig (74%).

Penderfynodd fy nhîm, sy'n cynnwys y bobl ifanc ar fy Mhanel Ymgynghorol, ei fod yn bwysig ymchwilio ymhellach i hyn er mwyn darganfod beth allai wneud cyfranogiad mewn lleoliadau uwchradd yn fwy effeithiol. Yn 2019/20 fe fuon ni'n ymchwilio i'r mater yma, gan ymgynghori â phobl ifanc a gweithwyr proffesiynol ynghylch sut mae cyfranogiad yn gweithio yn eu hysgolion nhw a pha heriau sydd i'w hwynebu wrth sicrhau bod pobl ifanc yn wir yn gallu bod yn rhan o wneud penderfyniadau.

Mae'r bobl ifanc sy'n rhan o'm Panel Ymgynghorol wedi bod yn hanfodol i'r gwaith yma. Fel grŵp amrywiol, maen nhw'n profi eu haddysg mewn gwahanol fathau o leoliadau, ac maen nhw wedi cael amrywiaeth o brofiadau o gyfranogiad. Mae rhai pobl ifanc ar fy mhanel yn falch iawn o'u cynghorau ysgol effeithiol, a manteision hynny i'w hysgol; ac mae rhai enghreifftiau o ysgolion sydd wedi datblygu dulliau cyfranogi y mae pobl ifanc yn wir yn eu gwerthfawrogi wedi cael eu cyhoeddi'n astudiaethau achos ar fy ngwefan.

Gyda'u profiadau amrywiol, mae'r bobl ifanc ar fy Mhanel wedi rhoi cyfeiriad strategol i'm tîm; yn rhannu'r penderfyniadau ynghylch nodau'r prosiect; yn datblygu dulliau ymgynghori a chwestiynau; ac yn ein cynghori sut gallai cyfranogiad fod yn fwy effeithiol. Mae gwybodaeth y bobl ifanc am yr hyn sy'n digwydd mewn ysgolion a'u dealltwriaeth o anghenion pobl ifanc a'r pethau sy'n werthfawr iddyn nhw yn golygu bod y gwaith yma'n llawer cryfach. A dyna'r pwynt: pobl ifanc yw'r arbenigwyr ar eu bywydau eu hunain.

Bydd ysgolion sy'n gallu cynnwys profiad ac arbenigedd pobl ifanc yn effeithiol wrth wneud penderfyniadau yn lleoedd hapusach a mwy diogel lle mae pobl ifanc yn cael cyfleoedd cryfach i ddatblygu eu doniau a'u sgiliau i'r eithaf. Nawr bod deddfwriaeth newydd ar fin dod i rym, mae lleoliadau'n datblygu dulliau newydd o ymdrin â'r cwricwlwm, asesu a chefnogi anghenion dysgu ychwanegol. Mae hon yn foment bwysig i fwyafu'r cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan. Bydd hynny'n golygu bod dulliau gweithredu newydd yn cael eu llywio gan y bobl ifanc y byddant yn effeithio ar eu bywydau.

# Gwybodaeth Gefndir

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Mae hawliau dynol plant yn cael eu diogelu gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae Cyfranogiad yn un o Egwyddorion Tywys CCUHP. Mae Erthygl 12, yr hawl i gael rhoi barn ar benderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi, yn fynegiant eglur o'r egwyddor hon. Mae hawliau cyfranogiad yn cael eu mynegi hefyd yn Erthyglau 13 ac 17, yng nghyswllt mynediad at wybodaeth ddealladwy, ac yn Erthyglau 14; 15; 31, ynghylch hawliau i gyfranogiad diwylliannol. Mae hawl plant i gymryd rhan mewn penderfyniadau yn hawl trawsbynciol y mae'n rhaid ei phrofi er mwyn i blant fwynhau pob un o'r 42 o hawliau a geir o dan CCUHP. Mae'r rhain yn cynnwys hawliau plant i gydraddoldeb a pheidio â dioddef camwahaniaethu, i ddiogelwch a chael eu hamddiffyn rhag niwed, ac i gael yr adnoddau mae arnynt eu hangen i ddatblygu.

Mae hyn yn golygu bod angen cyfleoedd teg ar bob plentyn a pherson ifanc i fynegi eu barn. Heb hynny, fydd oedolion a gweithwyr proffesiynol ddim yn gwybod a fydd plant yn teimlo'n ddiogel, a fyddan nhw ddim yn gwybod pa mor effeithiol yw gwasanaethau o ran darparu'r hyn sydd ei angen ar blant i fod yn iach ac i ddysgu.

## Ffocws y prosiect yma: pam ysgolion uwchradd?

Mae'r un mor bwysig bod pob plentyn a pherson ifanc yn profi eu hawl i gyfranogiad ym mhob agwedd ar eu bywydau a'u haddysg. Mae'r adroddiad yma'n canolbwyntio ar brofiad pobl ifanc o hynny mewn ysgolion uwchradd, a sut gallai hynny gael ei wella. Y rheswm am hynny yw bod arolwg y Comisiynydd yn 2018[1], oedd yn cynnwys bron 7000 o ymatebwyr, wedi dangos bod plant mewn ysgolion cynradd ac addysg arbennig yn teimlo'n sylweddol fwy abl i gyfranogi mewn penderfyniadau yn eu hysgol na phobl ifanc mewn ysgolion uwchradd. Roedd canlyniadau ansoddol yr arolwg hwnnw'n dangos bod heriau a rhwystrau penodol mewn ysgolion uwchradd, nad oeddent fel petaent yn effeithio i'r un graddau ar leoliadau eraill.

Mae'r gwaith ymchwil a wnaed ar gyfer yr adroddiad hwn wedi cynnwys lleoliadau eraill, megis lleoliadau cynradd ac AAA, ond cyfeirir at y rhain yn yr adroddiad hwn yn bennaf er mwyn dangos data cymharol. Cafodd ysgolion sy'n gweithio gyda phlant 3-16 oed a 3-18 oed eu cynnwys wrth gasglu'r data hefyd, ond o ddidoli yn ôl oedran, roedd yr ymatebion o'r lleoliadau 3-16/18 yn cyfateb yn fras i rai plant yr un oed mewn lleoliadau cynradd ac uwchradd.

Mae hefyd yn wir bod llawer o blant yng Nghymru heb eu cofrestru mewn lleoliadau ysgol ffurfiol. Ni chafodd cyfranogiad mewn lleoliadau addysg anffurfiol ei gynnwys yng nghylch gorchwyl y gwaith ymchwil yma, ond mae'r Comisiynydd Plant yn canolbwyntio ar brofiadau y tu allan i addysg ffurfiol

[1] t.31 Adroddiad-Blynyddol-2018-19.pdf (complantcymru.org.uk)

mewn meysydd gwaith eraill sy'n parhau. Ymhlith y rhain mae galluogi cyfleoedd i gyfranogi trwy gynllun Llysgenhadon Cymunedol y Comisiynydd, gwaith y Comisiynydd i sicrhau bod yr holl blant sy'n cael eu haddysgu gartref yn cael eu galluogi i gyfranogi mewn penderfyniadau ac ymwneud y Comisiynydd ag Addysg heblaw am yn yr Ysgol (EOTAS) trwy ei rhaglen o waith cyfranogol a'i gwasanaeth gwaith achosion.

Mae'r argymhellion ar gyfer gwelliant yn canolbwyntio ar ysgolion uwchradd, ond gallen nhw fod yn berthnasol ac o gymorth i leoliadau eraill hefyd.

# Y CANFYDDIADAU

## Sut daethon ni o hyd i dystiolaeth?

**Cwblhawyd yr holl waith ymgynghori ar gyfer y gwaith hwn rhwng Ebrill 2019 a Chwefror 2020. Mae'n adlewyrchu profiadau a barn pobl ifanc ac oedolion cyn y pandemig.**

Bu tîm y Comisiynydd yn ymchwilio i brofiadau pobl ifanc o gyfranogiad mewn ysgolion rhwng Ebrill 2019 a Chwefror 2020. Rhannwyd y gwaith ymchwil sylfaenol hwn yn ddau gyfnod:

### Cyfnod Un

- Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019
  Cwblhawyd gan 7404 o blant a phobl ifanc a 360 o athrawon ar draws 98 o leoliadau ysgol gwahanol

### Cyfnod Dau

- Arolwg o Lywodraethwyr Ysgol
  Cwblhawyd gan 135 o Lywodraethwyr

- Arolwg canfod ffeithiau ar gyfer cynghorau ysgol uwchradd
  Cwblhawyd gan 24 o gynghorau ysgol uwchradd

- Gweithdai ymgynghori wyneb yn wyneb mewn ysgolion
  Gyda 109 o bobl ifanc mewn 8 ysgol, ar draws 5 ardal awdurdod lleol yng Nghymru

- Dwy drafodaeth gyda phobl ifanc ynghylch effeithiolrwydd cynghorau ysgol (yng ngogledd a de Cymru), gyda chynrychiolwyr o 21 o ysgolion uwchradd

- Gweithdai ymgynghori wyneb yn wyneb mewn grwpiau cymunedol
  Gyda 40 o bobl ifanc mewn 5 lleoliad cymunedol gwahanol mewn 4 ardal awdurdod lleol yng Nghymru

- Cyfweliadau astudiaethau achos, ymweliadau neu adroddiadau am gyfranogiad mewn 7 lleoliad gwahanol, mewn 6 ardal awdurdod lleol

- Ymgynghori a chyfarfodydd â gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys: Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion Llywodraeth Cymru; Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru Gyfan; grŵp trafod gydag athrawon uwchradd; pob un o'r pedwar consortiwm; Grŵp Cefnogi Llywodraethwyr ADEW ac Estyn.

## Esboniad ar Ddull Gweithredu a Dadansoddiad yr Ymchwil

### Cyfnod Un

Cafwyd cyfanswm o 7764 o ymatebwyr i **Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019** (er nad atebodd pob ymatebwr bob cwestiwn): roedd y sampl yn cynnwys 360 o athrawon a 7404 o ddisgyblion. Cafwyd ymatebion o 98 o ysgolion gwahanol. O'r rhain, roedd 77% yn ysgolion cynradd, 18% yn ysgolion uwchradd, 3% yn lleoliadau AAA, a 2% yn lleoliadau 3-16 neu 3-18. Mae'r canrannau hyn yn cynrychioli: 75 ysgol gynradd; 16 ysgol uwchradd; 3 x ysgol 3-16/18; 2 x lleoliad Anghenion Addysg Arbennig.

Roedd mwyafrif o'r sampl yn dod o ysgolion Saesneg eu hiaith (86% o'r athrawon, o gymharu â 9% o'r sector Gymraeg a 5% yn ddwyieithog), ac roedd bron un rhan o dair o'r sampl athrawon yn dod o awdurdod lleol Caerdydd (31%). Roedd nifer y disgyblion a fu'n cymryd rhan hefyd yn gostwng gydag oed (gyda llai o gyfranogwyr ar ôl cyrraedd 15 oed (yn amrywio rhwng 0 a 2% o'r sampl); a'r rhan fwyaf o'r sampl rhwng 7 ac 14 oed). O blith y disgyblion a ymatebodd, nododd 6% fod ganddynt anabledd, ac roedd yn well gan 7% beidio â dweud oedd ganddyn nhw anabledd neu beidio. Nododd llai nag 1% eu bod yn Drawsrywiol (mae hyn yn cynrychioli 31 o ymatebwyr unigol), ac roedd yn well gan 3% beidio â nodi eu rhywedd.

Cafodd yr ymatebion eu trefnu a'u dadansoddi yn ôl y canlynol: lleoliad ysgol (Ysgol Gynradd, Ysgol Uwchradd, Ysgol AAA neu Ysgol 3-16/18); rhywedd; statws anabledd; cyfrwng iaith yr ysgol; oedran. Cafodd y data meintiol ac ansoddol eu dadansoddi trwy groesdablu er mwyn archwilio'r berthynas rhwng grwpiau cymdeithasol/lleoliadau a phrofiadau o gyfranogiad.

Derbyniodd lleoliadau a fu'n rhan o'r arolwg hefyd eu hadroddiad personol eu hunain oedd yn cyflwyno ymatebion eu disgyblion ac yn eu cymharu â'r cyfartaleddau cenedlaethol. Mae hynny wedi galluogi ysgolion i ddeall profiadau disgyblion a phennu targedau ynghylch sut mae sicrhau bod disgyblion yn profi eu hawliau drwy ddefnyddio adnodd Comisiynydd Plant Cymru, Y Ffordd Gywir: dull seiliedig ar hawliau plant i addysg yng Nghymru.

### Cyfnod Dau

Er mwyn ymchwilio ymhellach i rai o ganfyddiadau Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019 datblygodd tîm y Comisiynydd arolygon ychwanegol ar gyfer **Llywodraethwyr Ysgol** a **Chynghorau Ysgol**, ac mae nifer yr ymatebwyr i'w gweld ar dudalen 7. Datblygodd y tîm hefyd amrywiaeth o **weithgareddau cyfranogol** ar gyfer pobl ifanc o **leoliadau ysgol a chymunedol**, gan sicrhau bod modd i blant a phobl ifanc â **nodweddion gwarchodedig** rannu eu barn. Mae manylion niferoedd y grwpiau a'r ymatebwyr i'r arolygon hefyd wedi'u cynnwys ar dudalen 7. Roedd y lleoliadau a fu'n rhan o'r gwaith hwn fel a ganlyn:

Yn y Gymuned:

- Lleoliad grŵp ffydd;
- Grŵp ieuenctid i bobl ifanc sy'n Sipsiwn/Deithwyr;
- Dau grŵp ieuenctid ar gyfer pobl ifanc BAME;
- Grŵp ieuenctid ar gyfer pobl ifanc ag anableddau;

Mewn Ysgol:

- Lleoliadau uwchradd Cymraeg eu hiaith a Saesneg eu hiaith;

- Grŵp LHDT mewn ysgol;
- Lleoliad un rhyw — bechgyn;
- Lleoliad un rhyw — merched;
- Uned Cyfeirio Disgyblion;
- Lleoliadau prif ffrwd, gan gynnwys pobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Dadansoddwyd gwybodaeth o'r ail gyfnod hwn o'r gwaith ochr yn ochr ag Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019 ac **ymgynghoriad proffesiynol** (manylion ar dudalen 7) i ddarparu'n sylfaen lawn o dystiolaeth.

## Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthyn ni?

Mae'r ffeithlun yma'n dangos **canfyddiadau allweddol o Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019**. Mae hyn yn dangos i ni sut mae disgyblion yn profi eu hawliau mewn gwahanol leoliadau addysg ac roedd yn sylfaen i ni ar gyfer ail gyfnod yr ymchwil.

## Crynodeb o'r Canfyddiadau ynghylch Cyfranogiad

Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth lawn a gasglwyd ar gyfer yr adroddiad hwn yn datgelu'r canfyddiadau allweddol canlynol:

1. Mae cynghorau ysgol yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu gweld fel rhywbeth pwysig ar draws lleoliadau ysgol
2. Mae pobl ifanc mewn ysgolion uwchradd yn cael bod cynghorau ysgol yn llai gwerthfawr na phlant a phobl ifanc mewn lleoliadau ysgol eraill
3. Mae pobl ifanc mewn ysgolion uwchradd yn teimlo'n llai abl i gyfranogi na phlant a phobl ifanc mewn lleoliadau eraill
4. Mae cyfranogiad effeithiol yn cefnogi ac yn galluogi llesiant pobl ifanc
5. Dyw pobl ifanc â nodweddion gwarchodedig ddim bob amser yn teimlo eu bod nhw'n cael cyfleoedd cyfartal i gyfranogi
6. Dyw pobl ifanc sy'n llai hyderus yn academaidd neu'n gymdeithasol ddim yn cael cyfle cyfartal i gyfranogi
7. Mae llawer o bobl ifanc yn teimlo bod eu cyngor ysgol ddim yn cysylltu â strwythur ehangach o gyfranogiad a'i fod yn gweithredu'n ynysig oddi wrth weddill cymuned yr ysgol
8. Dyw disgyblion ddim bob amser yn cael eu dewis ar gyfer y cyngor ysgol mewn ffordd sy'n cael ei gweld fel un deg nac yn unol â'r rheoliadau
9. Mae llawer o gyrff llywodraethu yn rheolaidd heb rannu penderfyniadau gyda chynghorau ysgol a dyw'r holl gyrff llywodraethu mewn ysgolion uwchradd ddim yn dilyn y rheoliadau ynghylch Llywodraethwyr Cyswllt sy'n Ddisgyblion
10. Mae pobl ifanc mewn ysgolion uwchradd yn teimlo'n llai abl i fod yn rhan o benderfyniadau ynghylch eu dysgu na rhai mewn lleoliadau eraill

## Trafod y Canfyddiadau Allweddol

Mae'r adran hon yn edrych ar bob un o'r canfyddiadau a rifwyd yn eu tro ac yn cyflwyno'r dystiolaeth sy'n sail ar gyfer pob un. Mae hefyd yn cyflwyno chwe astudiaeth achos ynghylch cyfranogiad, y mae pob un ohonynt wedi cael eu gwerthfawrogi gan bobl ifanc ac sy'n dangos sut mae ymarfer ar lefel ysgol neu awdurdod lleol wedi atal neu oresgyn rhai o'r heriau a nodwyd.

### Canfyddiad Allweddol 1. Mae cynghorau ysgol yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu gweld fel elfen bwysig ar draws lleoliadau ysgol

- Ym mhob lleoliad mae plant a phobl ifanc yn gweld cynghorau ysgol fel ffordd bwysig i blant a phobl ifanc fedru cyfranogi mewn penderfyniadau. Mae Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019 yn dangos mai **8% yn unig o blant a phobl ifanc sy'n aelodau o gyngor ysgol (ar draws pob lleoliad) sy'n dweud eu bod nhw *ddim* yn cael cyfle i wneud penderfyniadau.** Mae'r sylwadau ar yr arolwg hwn yn adlewyrchu hyn hefyd: mae plant a phobl ifanc yn aml yn sôn am gynghorau ysgol fel ffactor allweddol sy'n caniatáu rhannu cyfranogiad.
- Mae'r bobl ifanc a fu'n cymryd rhan yn y gwaith ymchwil hwn yn disgrifio **llawer o newidiadau** mae cynghorau ysgol wedi'u gwneud yng Nghymru, gan gynnwys:
  - Newid y wisg ysgol
  - Cynyddu ymwybyddiaeth o hawliau plant

- Sicrhau bod ffynhonnau dŵr yn cael eu gosod
- Newid bwydlen ffreutur yr ysgol
- Datblygu'r ystod o weithgareddau a chwaraeon sydd ar gael
- Newid trefniant y diwrnod ysgol a sut mae cyfnodau egwyl yn cael eu hamseru
- Cychwyn gweithgareddau cymunedol fel grwpiau pontio'r cenedlaethau

- Mae athrawon o bob lleoliad, gan gynnwys rhai uwchradd, a gwblhaodd arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019 hefyd yn disgrifio'r cyngor ysgol fel rhywbeth gwerthfawr ac yn nodi ym mha ffyrdd cadarnhaol mae cynghorau wedi gwneud cyfraniad i ysgolion a'u cymunedau ehangach.

## Canfyddiad Allweddol 2: Mae pobl ifanc mewn ysgolion uwchradd yn cael bod cynghorau ysgol yn llai gwerthfawr na phobl ifanc mewn lleoliadau ysgol eraill

- Mae pobl ifanc yn gweld cynghorau ysgol fel ffactor pwysig i'w helpu i brofi eu hawliau, ond mae disgyblion ysgol uwchradd yn teimlo'n llai cadarnhaol na'r rhai sydd mewn ysgolion cynradd neu AAA. **Dim ond 33% o'r disgyblion mewn ysgolion uwchradd sy'n teimlo bod cynghorau ysgol yn trafod materion sy'n bwysig iddyn nhw**, o gymharu ag 85% yn y cynradd a 100% mewn ysgolion arbennig. Mae athrawon Cynradd ac AAA a fu'n cwblhau Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019 hefyd yn gweld mwy o botensial i gynghorau ysgol greu newidiadau a rhoi llais i ddisgyblion nag athrawon mewn lleoliadau uwchradd, ac mae hynny'n adlewyrchu ymatebion y disgyblion, er bod y gwahaniaeth yn llai eithafol.
- **Does gan bobl ifanc ddim bob amser berchnogaeth ar drafodion cyngor ysgol**. Yn achos dros hanner y 24 cyngor ysgol a gwblhaodd ein Harolwg Cynghorau Ysgol, y disgyblion sy'n penderfynu beth mae'r cyngor ysgol yn ei wneud a'i drafod, ond mewn 7 o'r 24 ysgol, yr athrawon sy'n penderfynu ar hynny. Mae nifer o athrawon yn Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019 hefyd yn dadlau o blaid rhoi mwy o reolaeth i ddisgyblion dros drafodion cynghorau ysgol:

*"Y dysgwyr eu hunain ddylai osod yr agenda."* (Athro Uwchradd, Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019)

- Fel y disgwylid, roedd y rhai oedd yn perthyn i gynghorau ysgol / grwpiau llais y disgybl yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn cael rhoi barn ar wariant yr ysgol, ond nid yw'r nifer yma mor uchel, efallai, ag y gallai fod yn achos ymatebwyr oedd yn rhan o grwpiau llais y disgybl/cyngor ysgol: at ei gilydd dywedodd 22% nad oedden nhw'n cael rhoi barn ar wariant ac roedd 33% arall yn ansicr oedden nhw'n cael rhoi barn ar hynny. Mae hynny'n codi cwestiwn ynghylch **faint o allu i wneud penderfyniadau sydd gan gynghorau ysgol yng nghyswllt polisïau a chyllideb yr ysgol.**
- Mae'r athrawon a'r bobl ifanc yn teimlo **nad oes digon o amser yn yr ysgol uwchradd** ar gyfer cynghorau ysgol. Mae dros hanner y 24 cyngor ysgol uwchradd oedd yn rhan o'n harolwg Cynghorau Ysgol yn dweud nad oes gan athrawon ddigon o amser i gefnogi'r cyngor ysgol. Thema gyffredin yn ymatebion ansoddol athrawon i arolygon yw'r angen am gynyddu cysondeb a hyd cyfarfodydd.

*"Mae angen rhoi mwy o amser i gynllunio, gwerthuso ac arfarnu rôl a gwaith y plant i holl aelodau'r cyngor ysgol."* (Athro a ymatebodd i Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019);

*"Dyw un athro yn ceisio'i ffitio mewn i amserau egwyl, cinio a gwasanaeth ddim yn ddigon."* (Athro a ymatebodd i Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019)"

- Roedd Athrawon yn yr ymgynghoriad wyneb yn wyneb hefyd yn cytuno â hyn, gan amlygu **cyfyngiadau ar yr amser y gallai gweithwyr proffesiynol a phobl ifanc** ei neilltuo ar gyfer cynghorau ysgol, sef: bod pwysau arholiadau yn golygu na all pobl ifanc mewn grwpiau blwyddyn hŷn roi blaenoriaeth i gymryd rhan yn y cyngor ysgol; a bod llwyth gwaith athrawon yn golygu na all athrawon cyswllt neilltuo amser digonol ar gyfer y cyngor ysgol. Roedd y bobl ifanc mewn gweithdai yn cefnogi'r awgrymiadau hyn:

*"Oherwydd yn yr ysgol gyfun mae'r ysgol yn poeni mwy bod chi'n dysgu'n barod ar gyfer eich profion, ond yn y cynradd mae mwy o amser i wrando ar y plant."* (Cyfranogwr Gweithdy, Ysgol Uwchradd)

- Amlygodd pobl ifanc mewn gweithdai hefyd fod angen i gynghorau ysgol mewn ysgolion uwchradd fod yn fwy difyr a diddorol:

*"Dydyn ni ddim yn gwneud llawer yn fy nghyngor ysgol. Mae'r un fath drwy'r amser ac mae'n gallu bod yn ddiflas."* (Cyfranogwr Gweithdy, Grŵp Ieuenctid BAME)

- Amlygodd cyfranogwyr mewn gweithgareddau wyneb yn wyneb hefyd rwystredigaethau ynghylch anallu cynghorau ysgol i gyflawni newid go iawn,

*"Dyle fe ddim cymryd blynyddoedd i dadflocio tai bach."* (Cyfranogwr Ysgol Uwchradd mewn Trafodaeth)

## Canfyddiad Allweddol 3: Mae pobl ifanc mewn ysgolion uwchradd yn teimlo'n llai abl i gyfranogi na phlant a phobl ifanc mewn lleoliadau eraill

- Mae llai o bobl ifanc mewn ysgolion uwchradd yn teimlo eu bod nhw'n gallu bod yn rhan o benderfyniadau mewn ysgolion uwchradd o gymharu â lleoliadau cynradd ac AAA. Mae Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019 yn dangos bod **43% o'r ymatebwyr mewn ysgolion uwchradd yn teimlo eu bod yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau** yn eu hysgolion o gymharu â 74% o'r ymatebwyr ysgol gynradd ac 86% o'r ymatebwyr o leoliadau AAA.
- Mae ymatebion ansoddol o'r ysgolion cynradd i Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019 yn eithriadol o gadarnhaol ynghylch eu gallu i gyfranogi, gyda llawer yn cyfeirio at grwpiau disgyblion a blychau syniadau. Ond mae **mwy o ymatebion negyddol na rhai cadarnhaol** gan ddisgyblion ysgol uwchradd, ac mae rhai o'r rheiny'n dangos bod **pobl ifanc mewn ysgolion uwchradd yn gallu gweld cyfranogiad fel rhywbeth arwynebol:**

*"Pa bwyllgor bynnag rydyn ni ynddo, allwn ni ddim gwneud unrhyw benderfyniadau ystyrlon, ac er mod i'n aelod cwricwlwm o'r pwyllgor ysgol, ches i ddim gwahoddiad i unrhyw gyfarfodydd."* (Ymatebydd Ysgol Uwchradd i Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019)

*"Gwneir penderfyniadau gan yr athrawon, nid disgyblion, y rhan fwyaf o'r amser."* (Ymatebydd Ysgol Uwchradd i Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019)

- Dim ond **23% o'r disgyblion mewn ysgolion uwchradd sy'n teimlo eu bod yn cael rhoi barn ar bolisïau ysgol** (o gymharu â 50% mewn ysgolion cynradd). Fodd bynnag, roedd hwn yn un o'r ychydig iawn o atebion lle roedd anghysondeb yn ymatebion yr athrawon, gan fod athrawon mewn ysgolion uwchradd yn fwy tebygol o sôn am ymgynghori â phlant wrth greu polisïau ysgol na'r rhai mewn lleoliadau cynradd (mae 46% o'r athrawon uwchradd yn sôn am hynny, o gymharu â 28% o'r athrawon cynradd).

- Dim ond **17% o'r disgyblion uwchradd sy'n dweud eu bod yn cael rhoi barn ar wario arian** yn eu hysgolion. Eto, adroddir bod hyn yn llai tebygol nag mewn ysgolion cynradd (44%) a lleoliadau AAA (40%). Yn yr achos hwn, mae ymatebion yr athrawon yn adlewyrchu rhai'r disgyblion, a **dim ond 6% o'r athrawon ysgol uwchradd** sy'n dweud bod pobl ifanc yn ymwneud â gosod cyllidebau ysgol.
- Bu'r gwaith cyfranogol gyda phobl ifanc yn archwilio pam roedd y gwahaniaeth hwn yn bodoli rhwng lleoliadau. Cynigiwyd sawl awgrym, a'r rhai a gynigiwyd amlaf oedd:
  - Maint y lleoliad
  - Aeddfedrwydd a dealltwriaeth y disgyblion
  - Pwysau arholiadau
  - Bod llai o ots gan athrawon mewn ysgolion uwchradd nag mewn ysgolion cynradd
  - Bod disgyblion ddim eisiau cyfranogi wrth iddyn nhw fynd yn hŷn

*"Pan wyt ti'n ifancach mae beth ti'n gofyn amdano yn llai ac yn rhatach."* (Cyfranogwr Gweithdy, Ysgol Uwchradd)

*"Pan maen nhw'n ifancach, dydyn nhw ddim yn gweld y problemau mwy."* (Cyfranogwr Gweithdy, Ysgol Uwchradd)

*"Dydyn ni ddim yn ciwt ragor."* (Cyfranogwr Gweithdy, Ysgol Uwchradd)

*"Dod yn fwy hunan-ymwybodol ynghylch barn pobl a dydych chi ddim eisiau bod yn rhan ohono fe."* (Cyfranogwr Gweithdy, Ysgol Uwchradd)

# Astudiaeth achos: Amrywiaeth o ffyrdd i ganiatáu perchnogaeth ar benderfyniadau

Mae gan Ysgol Gyfun y Bont-faen ym Mro Morgannwg (dros 1500 o ddisgyblion ar y gofrestr), gyngor ysgol gweithredol sy'n cysylltu â chyfleoedd cyfranogiad ehangach ar draws yr ysgol.

## Y Cyngor Ysgol

Mae'r cyngor ysgol yn cwrdd bob tymor fel corff cyfan. Yn ogystal â hyn mae'r cyngor ysgol yn cael ei rannu ymhellach yn bwyllgorau dan arweiniad y myfyrwyr a chynghorau blwyddyn, sy'n gyfrifol am gyfleu gwaith y cyngor i weddill yr ysgol. Mae cyfrifoldebau'n cael eu dirprwyo i'r pwyllgorau gan gyngor yr ysgol, sy'n cysylltu ag arweinwyr staff. Mae'r pwyllgorau hyn yn cynnwys pwyllgor bwyta'n iach, eco-bwyllgor, pwyllgor LHDT, a phwyllgor hawliau plant. Mae syniadau'r cyngor ysgol yn cael eu hystyried yn wythnosol gan arweinyddiaeth yr ysgol, mewn cyfarfodydd rhwng y prif fachgen a'r brif ferch a'r pennaeth.

## Cyfleoedd cyfranogiad eraill

Yn ogystal â'r pwyllgorau, mae grwpiau prosiect yn cael eu ffurfio i gynllunio a goruchwylio diwrnodau ymwybyddiaeth a digwyddiadau codi arian, a gall y grwpiau hyn gynnig syniadau a gwneud penderfyniadau gyda chefnogaeth y staff. Ar hyd y flwyddyn, mae diwrnodau ymwybyddiaeth ar gyfer achosion fel iechyd meddwl, sepsis ac awtistiaeth yn cael eu cynnig a'u harwain trwy gynlluniau'r myfyrwyr. Mae gwasanaethau, gwersi dan arweiniad myfyrwyr, a sesiynau llesiant yn rhan o ddiwrnodau cynyddu ymwybyddiaeth. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu sgiliau arweinyddiaeth trwy gynnal y pwyllgor ymadawyr, cefnogi disgyblion blwyddyn 6 yn ystod diwrnodau pontio, a chwarae rhan weithredol yng ngrŵp Trafod y Meddygon. Mae'r cyfleoedd eraill ar gyfer y myfyrwyr yn cynnwys gorsaf deledu'r ysgol, Cowbridge Comprehensive Television (CCTV) a chylchgrawn yr ysgol, Print.

## Effaith

Mae pobl ifanc yn y Bont-faen yn dweud eu bod yn elwa o'r newidiadau a wnaed trwy gyfranogiad myfyrwyr a'r cyngor ysgol yn arbennig. Maen nhw'n nodi datblygiad sgiliau amrywiol trwy fod yn rhan o'r cyngor ysgol, er enghraifft arweinyddiaeth, gwydnwch, a sgiliau trefnu, ac yn disgrifio profiadau cadarnhaol creu newid y tu mewn a'r tu allan i'r dosbarth. Mae'r gymuned ehangach hefyd wedi elwa o weithgareddau dan arweiniad disgyblion fel y Cyngherddau i Bensiynwyr a'r gwirfoddoli rheolaidd gan ddisgyblion fel rhan o'r 'Bont-faen Dementia Gyfeillgar'.

"Mae'r prosiectau rhagweithiol yn hybu ethos ofalgar ar draws yr ysgol ymhlith y staff a'r disgyblion."
(Athro, y Bont-faen)

"Rydyn ni wedi dysgu llawer amdanom ni'n hunain ac am arweinyddiaeth, gan fod hyn wedi bod yn llwyfan gwych i ni ehangu ein gorwelion." (Person ifanc, Y Bont-faen)

## Canfyddiad Allweddol 4: Mae cyfranogiad effeithiol yn cefnogi ac yn galluogi llesiant pobl ifanc

- Yn y gweithdai, mae'r bobl ifanc yn sôn am effaith bod yn rhan o gyngor ysgol effeithiol neu grŵp arall llais y disgybl fel rhywbeth eithriadol o gadarnhaol, a nodwyd y manteision canlynol:
- Teimlo'n falch o gynrychioli eraill
- Teimlo'n falch o greu newid
- Teimlo fel rhan o dîm
- Teimlo'n hapus
- Teimlo eich bod yn cael gwrandawiad
- Teimlo anogaeth i gymryd rhan eto
- Ymdeimlad o berthyn

*"Roedd yn teimlo'n dda, pawb ohonon ni'n dod at ein gilydd i... sicrhau bod ein llais yn cael ei glywed."* (Cyfranogwr Gweithdy, Ysgol Uwchradd)

*"Mae'n teimlo'n wych creu newid sy'n cael effaith gadarnhaol ar grŵp mawr o bobl."* (Cyfranogwr Gweithdy, Ysgol Uwchradd)

- Mae grwpiau trafod gydag athrawon hefyd yn amlygu gwerth cyfranogiad o safbwynt llesiant a hyder disgyblion unigol. Mae'r athrawon yn sôn am bobl ifanc unigol sydd wedi cynyddu eu hyder trwy gymryd rhan mewn cynghorau ysgol a balchder pobl ifanc wrth wneud newidiadau i'w hysgol.
- Yn ogystal ag amlygu sut bu cymryd rhan yn cynnal eu llesiant, disgrifiodd pobl ifanc mewn gweithdai wyneb yn wyneb hefyd sut mae'n teimlo pan na fyddan nhw'n cael eu cynnwys neu os nad ydyn nhw'n cael gwrandawiad, gan nodi'r canlynol:

- Teimlo'n grac
- Teimlo'n ddig
- Teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu
- Teimlo eu bod yn cael eu hamharchu
- Teimlo bod dim ots amdanyn nhw neu eu barn
- Digalonni rhag cymryd rhan eto
- Teimlo eu bod yn cael eu gadael allan

*"Rwyt ti jyst yn stopio treio."* (Cyfranogwr Gweithdy, Ysgol Uwchradd)

*"Dwyt ti jyst ddim eisiau bod yn rhan ohono fe ragor."* (Cyfranogwr Gweithdy, Ysgol Uwchradd)

- Mae'r canfyddiadau ymchwil hyn yn cael eu hategu gan ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol ehangach i effaith cyfranogiad ac actifyddiaeth ar lesiant pobl ifanc. Mae ymchwil yn dangos bod cymryd camau cadarnhaol i wneud newidiadau[2] yn gwella llesiant a iechyd meddwl pobl ifanc, fel y mae perthyn i grŵp actifyddiaeth ieuenctid[3]. Dangoswyd bod cyfranogiad cymdeithasol ac ymgysylltiad yn arwain at deimladau o uniaethu a pherthyn, a chafwyd

[2] https://www.researchgate.net/publication/320346402_Exploring_the_Role_of_Engagement_on_Well-Being_and_Personal_Development_A_Review_of_Adolescent_and_Mental_Health_Activism

[3] https://onlinelibrary.wiley.com/doi/pdf/10.1002/jcop.21914

arwyddion hefyd o effeithiolrwydd ar gyfer gwella symptomau problemau iechyd meddwl a helpu adferiad[4]. Mae adroddiadau arolygu Estyn ar leoliadau ysgol unigol hefyd yn dangos, lle mae ysgolion uwchradd wedi'u graddio fel rhai â darpariaeth 'Ardderchog' ar gyfer llesiant, bod cyfranogiad yn aml yn cael ei nodi fel un o gryfderau'r ysgol. Enghraifft ddiweddar o hyn yw adroddiad arolygu 2019 ar gyfer Ysgol Dyffryn Aman[5], sy'n nodi cryfder y cyngor ysgol o ran sicrhau bod disgyblion yn teimlo croeso a'u bod yn cael eu cynnwys yn yr ysgol.

[4] Anne C. Montague a Francisco Jose Eiroa-Orosa *Exploring the Role of Engagement on Well-Being and Personal Development: A Review of Adolescent and Mental Health Activism* yn *The Routledge International Handbook of Critical Positive Psychology 2017*

[5] https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Ysgol%20Dyffryn%20Aman%20en.pdf

# Astudiaeth Achos: Cyfranogiad i Gynnal Iechyd a Llesiant

Gall ysgolion uwchradd yng Nghymru fod yn rhan o'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN). Mae'r rhwydwaith hwn yn cynnal arolwg bob dwy flynedd sy'n cael ei gwblhau'n ddi-enw gan yr holl bobl ifanc yn yr ysgol. Mae Ysgolion Iach Sir y Fflint wedi cefnogi'r holl ysgolion uwchradd yn Sir y Fflint i sicrhau dealltwriaeth fanwl o iechyd a llesiant pobl ifanc trwy ddadansoddi adroddiadau SHRN ysgolion unigol. Mae Cynghorau Ysgol Alun ac Ysgol Uwchradd Penarlâg, yn arbennig, wedi cynnal dadansoddiad helaeth o'r sir a'u hadroddiadau ysgol gyda chymunedau'r ysgol, ac maen nhw wedi rhoi camau gweithredu ar waith ar draws pynciau iechyd a llesiant ar lefel yr ysgol a'r awdurdod. Mae hyn wedi arwain at ysgolion eraill yn Sir y Fflint yn dilyn yr un dull gweithredu.

## Grymuso pobl ifanc â sgiliau a dealltwriaeth

Bu'r tîm Ysgolion Iach yn Sir y Fflint yn cydlynu digwyddiad ar gyfer Cynghorau Ysgol o'r enw *Deall Data a Chynllunio Gweithredu*. Roedd hyn yn cefnogi cynghorau ysgol i ddysgu sut i ddehongli eu data ysgol ac ystyried sut i flaenoriaethu meysydd i'w datblygu. Helpodd Cyngor Ysgol Alun i greu cynllun gweithredu ar ffurf templed y gallai ysgolion eraill ei ddefnyddio hefyd wrth dderbyn eu hadroddiad SHRN ysgol gyfan.

## Pobl ifanc fel rhan o'r newid

Bu Cyngor Ysgol Alun a'r cynghorau llys yn dadansoddi eu hadroddiad SHRN ac yna'n gweithio gyda staff, llywodraethwyr a grwpiau rhieni i ddatblygu cynllun gweithredu seiliedig ar y data. Treuliodd y bobl ifanc 2 fis yn cwrdd yn wythnosol i lunio'r dadansoddiad a'r cynllun gweithredu, cyn pennu camau i'w cyflawni yn ystod y flwyddyn nesaf (Mehefin 2018-Gorffennaf 2019).

Yn Ysgol Uwchradd Penarlâg crewyd gweithgor disgyblion SHRN oedd yn nodi rhestr o fanteision ac anfanteision o'r adroddiad SHRN, ac yna buon nhw'n gweithio gyda 'Chynrychiolwyr Llys' i ddewis meysydd i ganolbwyntio arnynt. Mewn modd tebyg i Ysgol Alun, buon nhw'n cwrdd bob wythnos ac yn treulio 2 fis yn dadansoddi ac yn llunio cynllun gweithredu, cyn pennu camau ar gyfer cyfnod o 10-mis, gyda chefnogaeth y staff, y llywodraethwyr ac asiantaethau allanol.

## Cydweithio rhwng ysgolion

Bu aelodau o Gyngor Ysgol Alun yn ymweld ag Ysgol Uwchradd Penarlâg ym mis Ionawr 2019 i rannu cynnydd a nodi blaenoriaethau a rennid ar gyfer cydweithio. Ym mis Mehefin 2019 cafwyd cyflwyniadau gan ddisgyblion a staff o'r ddwy ysgol yng Nghynhadledd SHRN Gogledd Cymru ynghylch dull Sir y Fflint o ymdrin ag SHRN.

## Effaith

Mae'r canlyniadau i'r gwaith hwn a nodwyd gan yr ysgolion wedi cynnwys gwella 'morâl' disgyblion yn yr ysgol a disgyblion yn sôn am well llesiant. Mae'r staff wedi sôn hefyd bod mwy o

ymwybyddiaeth ynghylch materion i'w dathlu ac i ganolbwyntio arnynt yn yr ysgol, a'u bod yn 'cael sgyrsiau mwy sensitif gyda disgyblion'. Mae rhieni hefyd wedi cynyddu ymwybyddiaeth o faterion iechyd a llesiant.

Yn ôl Claire Sinnot, Ymgynghorydd Dysgu i Gyngor Sir y Fflint: *"Mae hyn wedi gwneud llais y disgybl yn ganolog i gynlluniau iechyd a llesiant yr awdurdod lleol. Anogwyd y disgyblion i berchnogi adroddiad SHRN eu hysgol a rhoi cynllun ystyrlon ar waith i'r dyfodol."*

Mae'r bobl ifanc hefyd wedi rhannu eu hymatebion:

*"Mae hyn wedi dysgu llawer i mi a'm cyfoedion am iechyd ac wedi gwneud i ni sylweddoli pa bynciau mae angen i ni eu gwella er mwyn gwella llesiant. Mae'n bendant wedi cael effaith fawr ar yr ysgol mewn ffordd bositif."* Sebastien, Blwyddyn 10, Ysgol Alun

*"Mae wedi gwella ein hysgol oherwydd rydyn ni wedi sicrhau bod adnoddau ar gael i'r disgyblion ddysgu am gyffuriau, rhyw, perthnasoedd a phwysau. Rydyn ni wedi creu posteri a Powerpoint am y materion yma. Dylai pob ysgol wneud hyn er mwyn gwneud yr ysgol yn lle gwell, gyda help llais y myfyrwyr i gael syniadau."* Beth, Blwyddyn 10, Ysgol Penarlâg

## Canfyddiad Allweddol 5: Dyw pobl ifanc â nodweddion gwarchodedig ddim bob amser yn teimlo eu bod yn cael cyfle cyfartal i gyfranogi

- **Mae pobl ifanc sy'n nodi eu bod yn drawsrywiol (*n*=31) yn teimlo'n llawer llai tebygol o fod yn rhan o benderfyniadau, ac yn teimlo bod eu cyngor ysgol yn llai perthnasol iddyn nhw.** Ar draws pob lleoliad, dim ond 23% o'r ymatebwyr traws i Arolwg Addysg y Ffordd Gywir sy'n teimlo bod ganddyn nhw'r gallu i wneud penderfyniadau yn eu hysgol, o gymharu â mwy na 60% o'r ymatebwyr nad ydynt yn nodi eu bod yn drawsrywiol. Dywedodd 77% o bobl ifanc traws nad yw'r cyngor ysgol yn trafod materion sy'n bwysig iddyn nhw, o gymharu â llai na 20% o'r ymatebwyr nad ydynt yn nodi eu bod yn drawsrywiol. Maen nhw hefyd yn llai tebygol o wybod beth mae'r cyngor ysgol yn ei wneud.
- **Mae'r ymatebion gan ddisgyblion anabl (*n*= 464) bron bob amser rywfaint yn llai positif am gyfranogiad nag ymatebion rhai heb anabledd**. Er enghraifft, mae 21% o bobl ifanc ag anabledd yn dweud bod y cyngor ysgol ddim yn trafod materion sy'n bwysig iddyn nhw, o gymharu ag 16% heb anabledd. Ar draws yr holl leoliadau, mae canran lai o blant ag anableddau (55%) yn dweud eu bod yn teimlo y gallan nhw wneud penderfyniadau yn eu hysgolion, o gymharu â phlant heb anableddau (60%).
- Mae pobl ifanc ac athrawon yn mynegi awydd i sicrhau cynrychiolaeth fwy cyfartal gan ystod fwy amrywiol o bobl ifanc. **Cynyddu amrywiaeth yw'r prif awgrym gan bobl ifanc ynghylch sut i wella eu cyngor ysgol**, gyda 59% o'r ymatebwyr yn dewis hyn fel yr un peth a fyddai'n gwella'u cyngor ysgol.
- **Mae athrawon ysgol uwchradd hefyd yn llai tebygol o gytuno bod pob grŵp o ddisgyblion wedi'u cynrychioli** ar y cyngor ysgol nag athrawon mewn lleoliadau AAA neu gynradd. Mae ambell athro yn awgrymu y dylai cynghorau ysgol ehangu eu cynrychiolaeth:

*"Petai mwy o ddisgyblion yn cael eu cynnwys, gallen ni gael syniad gwell o'r hyn sydd ei angen ar wahanol ddisgyblion i'w helpu gyda'u haddysg."* (Athro Uwchradd, Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019)

*"Angen mwy o gyfleoedd i gefnogi penderfyniadau ar gyfer y myfyrwyr hynny sydd ag anawsterau cyfathrebu."* (Athro Uwchradd, Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019)

- Doedd yr ymatebion ansoddol i Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019 ddim yn tueddu i sôn am gamwahaniaethu ar sail nodweddion gwarchodedig fel rhwystr i bobl ifanc yn cymryd rhan, ond **mae cyfranogwyr mewn lleoliadau cymunedol yn disgrifio teimladau o gael eu heithrio o'r cyngor ysgol:**

*"Does dim cynrychiolaeth i wahanol ethnigrwydd ar ein cyngor ysgol."* (Cyfranogwr Gweithdy, Lleoliad Cymunedol Grŵp Ffydd)

*" Dydw i ddim yn gwybod llawer amdano fe [y Cyngor Ysgol] a dydyn nhw ddim yn ei hyrwyddo." (Cyfranogwr Gweithdy, grŵp ieuenctid Sipsiwn a Theithwyr)*

*"Dyw'r cyngor ysgol ddim yn gwrando ar fechgyn tocyn cinio." (Cyfranogwr Gweithdy, grŵp ieuenctid BAME)*

# Astudiaeth achos: Sicrhau cydraddoldeb trwy gyfranogiad

Mae gan Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr yng Nghaerdydd ychydig dros 1,000 o fyfyrwyr ar y gofrestr, ac mae'n sicrhau nad yw pobl ifanc yn cael eu gwthio i gyrion cyfranogiad oherwydd rhywedd neu rywioldeb trwy grŵp cyfranogiad LHDT. Mae gan yr ysgol hefyd grwpiau cydraddoldeb gweithredol eraill, gan gynnwys Balch (yn erbyn hiliaeth) a Newid-ffem (ffeministiaeth).

### Atal a herio camwahaniaethu

Digon yw enw'r grŵp cynhwysiad LHDT. Aelodau'r grŵp yw disgyblion LHDT a chefnogwyr LHDT. Roedd y grŵp cyntaf yn cynnwys disgyblion o flynyddoedd 10-13, ond bellach mae Digon yn cynnwys disgyblion o bob oed. Ffurfiwyd Digon gan ddisgyblion a welodd fwlio homoffobig yn yr ysgol a nodi'r heriau roedd athrawon yn eu profi wrth atal a thaclo'r ymddygiad yma. Ers iddo gychwyn yn 2011, mae'r grŵp wedi newid polisi'r ysgol ar yr ymateb i fwlio homoffobig, wedi cynnal sesiwn HMS gyda'r athrawon, ac wedi cyflwyno rheolau newydd. Mae'r grŵp wedi mynd ymlaen i gynnal gwersi ABChI yn eu hysgol, yn ogystal â thrydar eu gwersi yn fyw er mwyn ymgysylltu â mwy o bobl gyda'u neges.

### Ymgysylltu â'r gymuned

Mae Digon hefyd wedi ymgysylltu ag ysgolion cynradd, wedi cyflwyno deunyddiau mewn cynadleddau, ac wedi cyfrannu at wasanaeth mewn capel lleol. Mae'r grŵp yn defnyddio wythnos yr enfys yn gyfle i barhau i gynyddu ymwybyddiaeth o faterion LHDT, gorymdeithio mewn digwyddiadau Pride a chodi arian at elusennau LHDT. Ymhlith eu hymgyrchoedd eraill diweddar roedd ysgrifennu llythyr at y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, ynghylch diffyg perthnasedd y cwricwlwm Addysg Perthnasoedd a Rhywedd i ddisgyblion LHDT, cyn gorymdeithio i'r Senedd i gyflwyno'u llythyr yn bersonol. Mae'r grŵp wedi denu sylw ar lefel genedlaethol a rhyngwladol trwy eu hactifyddiaeth barhaus, gyda chefnogaeth gan Syr Ian McKellen a'r Archesgob Desmond Tutu.

### Effaith

Mae aelodau'r grŵp yn nodi bod Digon wedi bod yn gyfle i ddisgyblion fynegi eu hunain yn rhydd heb ofni ynghylch eu rhywioldeb. Mae wedi annog diwylliant o gynhwysiant yn eu hysgol, lle maen nhw'n nodi bod agweddau wedi cael eu trawsffurfio er gwell yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ymhlith y newidiadau cadarnhaol eraill mae'r grŵp yn dweud sydd o ganlyniad i'w gwaith mae'r gostyngiad yn y defnydd o iaith homoffobig a bwlio homoffobig yn yr ysgol, ac maen nhw'n sôn bod achosion o'r fath wedi mynd yn eithriadol brin, ac yn derbyn ymateb prydlon. Mae'r grŵp yn enghraifft o gyfle i gyfranogi a grewyd er mwyn cynnwys pawb ac i wneud yr ysgol ei hun yn fwy cynhwysol.

"Oedd pawb yn galw enwau ar y iard — neb yn teimlo'n ddiogel i ddod allan (cyn Digon)." Person Ifanc, YGG Plasmawr

"Un o'r pethau wnaeth e (Ian McKellen) dweud oedd i fyw bywyd yn agored, ac fel grŵp rydym yn trio lledaenu'r neges yna." Person Ifanc, YGG Plasmawr

## Canfyddiad Allweddol 6: Dyw pobl ifanc sy'n llai hyderus yn academaidd neu'n gymdeithasol ddim bob amser yn cael cyfle cyfartal i gyfranogi

- Mae niferoedd sylweddol o'r ymatebion ansoddol i Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019 yn dweud bod pobl ifanc yn teimlo'n analluog i gymryd rhan oherwydd **diffyg hyder neu swildod wrth siarad o flaen eraill** (cyfrifwyd 61 o ymatebion). Mae llawer yn dangos bod diffyg hyder yn eu hatal rhag cymryd rhan, ac mae eraill yn nodi bod teimlad o bryder ynghylch siarad yn gyhoeddus yn rhwystr:

*"Fwy na thebyg dwy ddim yn ddigon da."* (Ymatebydd Ysgol Uwchradd, Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019);

*"Dydw i ddim yn hyderus."* (Ymatebydd Ysgol Uwchradd, Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019);

*" Dydw i ddim yn hoffi siarad o flaen pobl."* (Ymatebydd Ysgol Uwchradd, Arolwg Ysgol y Ffordd Gywir 2019);

*"Rydw i'n swil."* (Ymatebydd Ysgol Uwchradd, Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019)

- I gyd-fynd â hyn, mae rhai pobl ifanc yn cydnabod eu bod yn **gallu cael llais oherwydd eu hunanhyder** wrth siarad yn gyhoeddus:

*"Rwy'n hyderus yn siarad o flaen pobl eraill."* (Ymatebydd Ysgol Uwchradd, Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019)

*"Dydw i ddim yn swil ac fe ddweda i beth rydw i'n ei feddwl."* (Ymatebydd Ysgol Uwchradd, Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019)

- Mae nifer sylweddol o'r ymatebion ansoddol i Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019 (cyfrifwyd 40 o ymatebion) yn cyfeirio at **gamwahaniaethu ar sail gallu academaidd** neu berfformiad ac ymddygiad fel rhwystr i bob person ifanc gymryd rhan:

*"Mae'r athrawon bob amser yn dewis y rhai clyfar."* (Ymatebydd Ysgol Uwchradd, Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019)

*"Dyw'r ysgol ddim yn gwrando ar ddisgyblion sy'n tangyflawni."* (Ymatebydd Ysgol Uwchradd, Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019)

*"Mae ein hysgol ni yn gadael i rai pobl godi llais, ond dyw eraill ddim yn cael gwneud oherwydd ymddygiad."* (Ymatebydd Ysgol Uwchradd, Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019)

*"Rydw i ar adroddiad coch." [rheswm a roddwyd am beidio â gallu cymryd rhan mewn penderfyniadau]* (Ymatebydd Ysgol Uwchradd, Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019)

- Mae nifer sylweddol o ymatebwyr hefyd yn dweud bod **diffyg poblogrwydd** yn golygu bod dim llais ganddyn nhw:

*" Achos mod i'n lletchwith a does neb yn hoffi fi ☹"* (Ymatebydd Ysgol Uwchradd, Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019)

*"Mae pobl sydd yn gwneud y penderfyniadau yn pobl poblogaidd."* (Ymatebydd Ysgol Uwchradd, Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019)

- Yn yr un modd, mae ambell berson ifanc yn dweud eu bod yn teimlo y **gallan nhw godi llais oherwydd eu bod yn boblogaidd** neu oherwydd bod yr athrawon yn eu hoffi:

*"Rydw i ar senedd y disgyblion achos bod yr athrawon yn hoffi fi."* (Ymatebydd Ysgol Uwchradd, Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019)

*"Achos mod i'n cŵl ac yn glyfar."* (Ymatebydd Ysgol Uwchradd, Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019)

- Cefnogir y canfyddiadau hyn gan weithdai wyneb yn wyneb. Yn ystod pob gweithdy mewn lleoliad ysgol uwchradd nododd pobl ifanc fod y grwpiau canlynol o bobl ifanc yn cael eu gadael allan o'u cyngor ysgol neu strwythurau cyfranogiad eraill:
  - Pobl ifanc sy'n fwy swil;
  - Pobl ifanc sy'n llai poblogaidd;
  - Pobl ifanc sy'n llai hyderus yn academaidd;
  - Pobl ifanc sydd ddim eisiau siarad yn gyhoeddus;
  - Pobl ifanc sydd â phroblemau ymddygiad.

*"Dyw'r set is ddim yn cael cymaint o wrandawiad — falle bod yr athrawon ddim yn meddwl bod nhw'n ddigon clyfar."* (Cyfranogwr Gweithdy, Ysgol Uwchradd)

- Awgrymodd cyfranogwyr mewn gweithdai hefyd resymau eraill pam nad oedd pob person ifanc yn teimlo eu bod yn gallu cymryd rhan, gan gynnwys:
  - Bod gan bobl ifanc flaenoriaethau eraill;
  - Pwysau gan gyfoedion i beidio â chodi llais.

*"Dyw rhai ddim eisiau cael eu cynnwys achos bod e'n ormod o waith, does dim ots da nhw."* (Cyfranogwr Gweithdy, Uned Cyfeirio Disgyblion)

*" Yn yr uwchradd mae gormod o bobl — mae pwysau gan gyfoedion i beidio â chodi llais."* (Cyfranogwr Gweithdy, lleoliad cymunedol seiliedig ar Ffydd)

"D*ydyn nhw ddim eisiau gwastraffu eu hamser."* (Cyfranogwr gweithdy, Ysgol Uwchradd)

- Mewn un gweithdy bu'r bobl ifanc yn trafod y cysylltiad rhwng bod yn wahanol a bod â diffyg hyder, gan awgrymu bydd rhai pobl ifanc yn wynebu rhwystrau lluosog i'w cyfranogiad os oes ganddynt nodweddion gwarchodedig neu wahaniaethau eraill, a'u bod hefyd yn brin o hyder:

*"Diffyg hyder os wyt ti'n teimlo'n wahanol, ac yna dwyt ti ddim eisiau dweud unrhyw beth."* (Cyfranogwr Gweithdy, Ysgol Uwchradd)

## Canfyddiad Allweddol 7: Mae llawer o bobl ifanc yn teimlo nad yw eu cyngor ysgol yn cysylltu â strwythur ehangach o gyfranogiad a'i fod yn gweithredu'n ynysig oddi wrth weddill cymuned yr ysgol

- Yn eu hadroddiad yn 2016 mae Estyn yn nodi bod strwythur cyfranogiad clir sy'n cwmpasu'r ysgol gyfan yn elfen bwysig o sicrhau agwedd gadarn at gyfranogiad. Mae rhai o'r ymatebion i'r arolwg yn dangos bod rhai ysgolion yn gwneud hyn, ac yn cysylltu'n dda â strwythur ehangach sy'n rhoi cyfle i'r rhai sydd ddim ar gynghorau gyfranogi:

*"Mae'r ysgol yn cynnal llais y ddisgybl (mae hyn pryd mae pob disgybl dweud ei syniadau am beth mae nhw eisiau gweld newid yn yr ysgol, ac maen i gyd yn ddienw."*
(Ymatebydd Ysgol Uwchradd, Arolwg Addysg Y Ffordd Gywir 2019)

- Fodd bynnag, mae disgyblion **sydd ddim ar grwpiau llais y disgybl neu'r cyngor ysgol yn teimlo eu bod yn llai tebygol o gymryd rhan mewn penderfyniadau.** Mae Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019 yn dangos, ar draws pob lleoliad, bod 46% o'r rhai sydd ddim yn rhan o grŵp cyfranogiad yn teimlo eu bod nhw ddim yn rhan o benderfyniadau, o gymharu â 22% yn unig o'r plant a'r bobl ifanc sy'n aelodau o grwpiau cyfranogiad.
- Roedd dros 80 o'r sylwadau yn yr arolwg hwn yn awgrymu mai ***dim ond*** **y rhai oedd mewn grwpiau llais y disgybl neu gynghorau oedd yn gallu bod yn rhan o wneud penderfyniadau.**

*"Dim ond y cyngor ysgol sy'n cael gwneud penderfyniadau, nid oes siawns i bawb mynegi eu barn."*
(Ymatebydd Ysgol Uwchradd, Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019)

*"Fydda i ddim yn cael fy nghlywed nac yn cael cymaint o wrandawiad ag y bydden i, fwy na thebyg, tasen i mewn clwb ysgol."* (Ymatebydd Ysgol Uwchradd, Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019)

- **Ategwyd hyn gan yr athrawon**, gan fod 32% o'r athrawon ysgol uwchradd yn arolwg Addysg y Ffordd Gywir wedi nodi mai 50% neu lai o'r disgyblion oedd yn cael cyfleoedd i wneud penderfyniadau.
- Cafwyd rhai sylwadau hefyd oedd yn sôn am **ddiffyg estyn allan cadarnhaol** gan gynghorau ysgol:
- Mae ymatebion yr athrawon hefyd yn amlygu angen am wella'r cyfathrebu â'r ysgol ehangach.
- Dangosodd y gweithdai hefyd fod llawer o bobl ifanc yn hoffi'r arfer neu'r syniad o bleidleisio'n ddienw ar faterion i'r cyngor ysgol eu hystyried, a bod llawer yn teimlo bod eu hysgol yn galluogi cyfranogiad ar draws yr ysgol, gweler ein hastudiaeth achos fel esiampl.

# Astudiaeth Achos: Sicrhau bod Pawb yn gallu Cyfranogi

Mae Ysgol Gyfun yr Olchfa yn Abertawe, ysgol sydd â mwy na 1,700 o ddisgyblion, wedi creu strwythur cyfranogiad sy'n sicrhau bod barn pob person ifanc yn cael ei hystyried trwy ddefnyddio amser tiwtor yn y grwpiau dosbarth. Gwneir hynny trwy gysylltu grŵp **gwneud penderfyniadau** â grŵp **ymgynghori**.

## Llunwyr Penderfyniadau

Enw'r Cyngor Ysgol yw 'Bwrdd Ymgynghorol yr Ysgol', ac mae'n cynnwys mwy na 30 disgybl o bob oed, ochr yn ochr â rhieni, athrawon a llywodraethwyr. Mae'r Bwrdd yn ymrannu'n is-grwpiau, pob un ohonynt yn canolbwyntio ar agwedd arbennig ar fywyd yr ysgol. Diben pob un o'r is-grwpiau yw gosod cwestiynau a fydd yn darganfod sut mae cymuned yr ysgol yn teimlo am faterion penodol, cyn gwneud penderfyniadau ar sail y data yma.

## Grŵp Ymgynghori

Ochr yn ochr â'r Bwrdd Ymgynghorol mae'r 'Tîm Cyfathrebu', sy'n cynnwys 2 gynrychiolydd o bob grŵp blwyddyn, sydd ddim yn cael bod yn aelodau o'r Bwrdd yn ogystal. Mae'r Tîm Cyfathrebu yn dosbarthu arolwg ymgynghori misol a grewyd gan un o is-grwpiau'r Bwrdd Ymgynghorol. Mae'r aelodau'n cyflwyno'r arolwg hwn i'w grŵp dosbarth yn ystod amser tiwtor ac mae'r dosbarth yn ymrannu'n grwpiau bach i drafod pob un o'r cwestiynau. Yna maen nhw'n rhoi adborth sy'n cyflwyno barn pob un o'r grwpiau, gan sicrhau bod pob disgybl yn yr ysgol yn cael cyfle i ystyried y mater a rhannu eu barn. Yna mae is-grŵp y tîm cyfathrebu yn dadansoddi data o'r ysgol gyfan ac yn creu adroddiad ar gyfer y Bwrdd Ymgynghorol. Mae'r Tîm Cyfathrebu hefyd yn sicrhau bod pob dosbarth yn cael cyfle i godi unrhyw fater arall hoffen nhw i'r Bwrdd trwy'r arolwg misol, ac maen nhw ar gael i gysylltu trwy e-bost unrhyw adeg.

## Adborth i bawb

Mae'n bwysig bod y tîm Cyfathrebu hefyd yn sicrhau bod pob grŵp tiwtoriaid hefyd yn derbyn adborth ar ganlyniadau'r arolwg diwethaf a'r penderfyniadau a wnaed o ganlyniad.

## Effaith

Mae Felix, Blwyddyn 8, sy'n aelod o Fwrdd Ymgynghorol yr Ysgol, yn dweud, *"Rydw i'n mwynhau bod yn rhan o'r tîm, mae'n wych rhoi help llaw a gwella fy ysgol. Rydw i'n falch o rai o'r newidiadau rydyn ni'n eu gwneud gyda'n gilydd, rydyn ni'n trefnu offer newydd ar gyfer ymlacio a chwarae, ac rydyn ni wedi penderfynu cael poteli dŵr am ddim yn yr ysgol; roedden ni'n gwybod bod hynny'n bwysig iawn i bawb. Un ffordd gallen ni wella fyddai cynnig ffordd i bobl roi syniadau i ni'n ddienw hefyd, rhag ofn eu bod nhw ddim eisiau siarad yn ystod amser dosbarth."*

## Canfyddiad Allweddol 8: Dyw disgyblion ddim bob amser yn cael eu dewis ar gyfer y cyngor ysgol mewn ffordd sy'n ymddangos yn deg na ffordd sy'n dilyn y rheoliadau

- Mae Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005 yn datgan, '*rhaid penodi i'r cyngor ysgol trwy etholiad â phleidlais gudd, lle mae gan yr holl ddisgyblion ar y gofrestr hawl i bleidleisio dros ymgeiswyr (os oes rhai) yn eu grŵp blwyddyn neu o fewn eu canolfan adnoddau anghenion addysgol arbennig.'* Eir ymlaen i esbonio mai'r unig achos lle nad yw hyn yn berthnasol yw *'lle gwneir trefniadau i'r holl ddisgyblion ar y gofrestr fod yn aelodau o'r cyngor ysgol.'*
- Mae ein harolwg o 24 cyngor ysgol uwchradd yn dangos mai system bleidleisio fel hon sy'n cael ei defnyddio i ethol aelodau'r cyngor ysgol yn y rhan fwyaf o ysgolion, ond **mewn rhai ysgolion, yr athrawon sy'n dewis** (5 allan o 24) neu gadeirydd y cyngor ysgol sy'n penderfynu (3 allan o 24).
- Roedd yr arolygon a'r gweithdai'n awgrymu mai **profiad rhai pobl ifanc o'r broses bleidleisio yw ei bod yn gystadleuaeth boblogrwydd**

*"Llawer o'r amser dyw pobl ddim ond yn pleidleisio am eu ffrindiau, yn hytrach na'r rhai fyddai'n ffitio orau, a dyw hynny ddim yn deg."* (Cyfranogwr Gweithdy, Ysgol Uwchradd)

- Disgrifiodd pobl ifanc eraill mewn gweithdai systemau etholiad fel rhai teg, ac amlygodd trafodaeth y canlynol fel **ffyrdd o sicrhau pleidleisio teg, ym marn pobl ifanc**:
  - gwneud y pleidleisio'n ddienw fel bod pobl ifanc ddim yn teimlo bod rhaid iddyn nhw bleidleisio dros ffrindiau;
  - defnyddio system o gyflwyno cais fel bod angen i bobl ifanc ddweud pam dylen nhw gael pleidleisiau;
  - caniatáu gwahanol ffyrdd i bobl ifanc sefyll mewn etholiadau, er mwyn peidio â chynnwys dim ond y rhai oedd yn teimlo'n hyderus i siarad yn gyhoeddus;
  - cynnwys cynrychiolwyr o grwpiau eraill yn yr ysgol, nid dim ond grwpiau blwyddyn;
  - archwilio cynrychiolaeth amrywiol yn eu hamser tiwtor a'u gwersi er mwyn annog gwahanol bobl ifanc i sefyll.

## Canfyddiad Allweddol 9: Dyw llawer o gyrff llywodraethu ddim yn rhannu penderfyniadau'n rheolaidd gyda chynghorau ysgol, a dyw pob corff llywodraethu ysgol uwchradd ddim yn dilyn y rheoliadau ynghylch Llywodraethwyr Cyswllt sy'n Ddisgyblion

- Yn ôl Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005, *'Mae'n rhaid i bennaeth ysgol sicrhau bod y cyngor ysgol yn cael cyfle i enwebu hyd at ddau ddisgybl o flynyddoedd 11 i 13 (cynhwysol) o blith ei aelodau i fod yn llywodraethwyr cyswllt sy'n ddisgyblion ar gorff llywodraethu'r ysgol.'* Ceir manylion pellach yn y Rheoliadau ynghylch sut mae llywodraethwyr cyswllt yn cymryd rhan a pha benderfyniadau dylen nhw ddim ymwneud â nhw. Mae'r Rheoliadau hefyd yn nodi sut mae angen i Lywodraethwyr gyfleu penderfyniadau i'r Cyngor Ysgol.
- Mae ein Harolwg o Gynghorau Ysgol yn dangos **nad oedd gan 6 o'r 24 ysgol uwchradd a gwblhaodd yr arolwg gynrychiolaeth trwy lywodraethwyr cyswllt oedd yn ddisgyblion** ar y corff llywodraethu. Ategir hyn gan gyfarfodydd gyda gweithwyr proffesiynol o awdurdodau lleol:

mae unedau cymorth i lywodraethwyr wedi nodi eu bod hwythau'n ymwybodol o sawl ysgol uwchradd yn eu hardal sydd ddim yn cynnwys llywodraethwyr cyswllt o blith y disgyblion.

- Mae gweithwyr proffesiynol sy'n arwain cymorth i lywodraethwyr mewn awdurdodau lleol hefyd wedi disgrifio, er bod rhai enghreifftiau o Gyrff Llywodraethu sydd ag ymarfer datblygedig yn y maes hwn, **bod llawer o ysgolion yn wynebu heriau o ran galluogi disgyblion i fod yn llywodraethwyr cyswllt**. Nodwyd yr heriau canlynol:
    - Dyw'r hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr cyswllt sy'n ddisgyblion ddim yn orfodol, ac er bod rhai disgyblion yn cael mynediad i hyfforddiant, nid yw pawb ohonynt yn cael cyfle i ddatblygu eu sgiliau'n ddigonol;
    - Mae rhai cyrff llywodraethu yn eithrio llywodraethwyr sy'n ddisgyblion o benderfyniadau y gallen nhw fod yn rhan ohonynt oherwydd ansicrwydd ynghylch cyfrinachedd a phriodoldeb cynnwys disgyblion;
    - Nid yw hyfforddiant ynghylch cyfranogiad a llywodraethwyr cyswllt sy'n ddisgyblion yn orfodol ar gyfer llywodraethwyr na chadeiryddion llywodraethwyr, ac ni fydd gan bob llywodraethwr y ddealltwriaeth na'r sgiliau i gynnwys pobl ifanc. Ategir hyn gan ein harolwg i lywodraethwyr ysgol, gan fod 77% o'r 135 o Lywodraethwyr a gwblhaodd yr arolwg hwn heb gael hyfforddiant erioed ynghylch hawliau plant yn eu rôl;
    - Mae gan bobl ifanc ym Mlynyddoedd 11, 12 ac 13 flaenoriaethau cystadleuol oherwydd arholiadau, ac maen nhw'n absennol o'r ysgol yn ystod cyfnodau arholiadau;
    - Mae llywodraethwyr cyswllt sy'n ddisgyblion hefyd yn wynebu heriau o ran cysylltu gwaith y corff llywodraethu a'r cyngor ysgol mewn modd ystyrlon, ac mae angen cefnogaeth arnyn nhw i wneud hynny.
- Ategir hyn gan ein harolwg ar gyfer llywodraethwyr ysgol, gan mai **27% yn unig o'r Llywodraethwyr a gwblhaodd yr arolwg hwn oedd yn mynychu cyfarfodydd cyngor yr ysgol.** Adleisiwyd hynny gan ein Harolwg o Gynghorau Ysgol, gan fod dros **hanner yr ysgolion uwchradd (13/24) yn adrodd nad oes neb o'u llywodraethwyr yn mynychu cyfarfodydd eu cyngor ysgol.**
- Disgrifiad mwyaf cyffredin llywodraethwyr o weithio gyda'u cyngor ysgol yw bod y **Pennaeth yn rhoi gwybod iddynt** am y cyngor ysgol ac yn cyfleu negeseuon o'r corff llywodraethu i'r cyngor ysgol. Mae llawer hefyd yn cynnwys cyflwyniadau gan y cyngor ysgol a grwpiau llais y disgybl fel rhan o'u cyfarfodydd.
- Dangosodd yr arolwg hefyd **nad yw cynghorau ysgol yn dylanwadu ar benderfyniadau'r corff llywodraethu yn rheolaidd.** Yn ôl 23% o'r ymatebwyr, doedd y cyngor ysgol 'byth' yn dylanwadu ar eu penderfyniadau; a dim ond 6% oedd yn dweud bod dylanwad ar eu penderfyniadau fwy nag unwaith bob tymor. Yr ateb a ddewiswyd amlaf oedd bod y cyngor ysgol yn dylanwadu ar benderfyniadau 'tua unwaith y flwyddyn', gyda 43% o'r ymatebwyr yn dewis yr ateb hwn.
- Dangosodd yr ymatebion ansoddol, er bod llawer o lywodraethwyr yn teimlo eu bod eisoes yn gweithio'n agos gyda'u cyngor ysgol a grwpiau cyfranogiad disgyblion eraill, bod eraill yn amlygu'r syniad o gynnal **cyfarfodydd uniongyrchol gyda'r cyngor ysgol yn un ffordd o helpu i wella penderfyniadau ar y cyd**.

# Astudiaeth Achos: Cefnogaeth Awdurdod Lleol ar gyfer Cyfranogiad Effeithiol

Fel sawl awdurdod lleol arall yng Nghymru, mae Cyngor Sir Benfro wedi cynnal ymweliadau ysgol ac adolygiadau i asesu effeithiolrwydd cyfranogiad a chynghorau ysgol yn ystod y tair blynedd diwethaf, yng ngoleuni'r safonau cyfranogiad cenedlaethol. Mae'r gwaith hwn wedi adeiladu ar werthusiadau blaenorol. Mae'r wybodaeth a gasglwyd wedi galluogi'r awdurdod i wella cyfranogiad mewn ysgolion uwchradd.

## Dysgu ar gyfer oedolion sy'n cefnogi

Gan ymateb i anghenion a nodwyd trwy adolygiadau, mae Cyngor Sir Penfro wedi cynnig hyfforddiant ar gyfranogiad i'r holl dimau arweinyddiaeth mewn ysgolion ac wedi sicrhau bod holl athrawon cyswllt cynghorau ysgol yn cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol i gyflawni eu rôl yn effeithiol. Rhoddwyd hyfforddiant hefyd i gannoedd o lywodraethwyr ysgol. Mae awdurdodau lleol eraill hefyd wedi datblygu hyfforddiant i lywodraethwyr, er mwyn iddyn nhw fedru deall yn well rôl bosibl cyfranogiad disgyblion yn eu gwaith.

**Pwysigrwydd cyfranogiad wrth ddiogelu**

Mae'r archwiliad diogelu a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Benfro wedi cael ei addasu i adlewyrchu pwysigrwydd cyfranogiad effeithiol wrth gadw plant yn ddiogel. Mae hynny'n cydnabod bod diogelu'n galw am roi cyfleoedd clir ac effeithiol i blant a phobl ifanc leisio'u profiadau.

## Cysylltu cynghorau ysgol uwchradd â chyfranogiad awdurdod lleol

Mae'r holl ysgolion uwchradd yn anfon cynrychiolwyr i Gynulliad Ieuenctid Sir Benfro, ac mae disgwyl i'r cynrychiolwyr hynny rannu gwybodaeth rhwng y Cynulliad Ieuenctid a'u Cynghorau Ysgol. Mae hynny'n golygu bod cynghorau ysgol yn gallu cyfrannu at gyfranogiad pobl ifanc ar lefel awdurdod lleol. Ar ben hynny, mae'r awdurdod yn trefnu 'Cinio gyda'r Cyfarwyddwr' bob hanner tymor, er mwyn i grwpiau penodol o bobl ifanc drafod eu barn a'u profiadau yn uniongyrchol gyda Chyfarwyddwr Plant ac Ysgolion yr Awdurdod.

## Effaith

Mae pobl ifanc yn gwerthfawrogi'r ddolen gyswllt rhwng y Cynulliad Ieuenctid a Chynghorau Ysgol ac yn teimlo ei fod yn gwneud eu penderfyniadau'n fwy gwybodus, gan fod modd rhannu gwybodaeth rhwng y gwahanol leoliadau:

*"Mae bod yn rhan o'r Cynulliad Ieuenctid wedi fy helpu i fod yn ymwybodol o faterion i bobl ifanc a beth sy'n cael ei wneud amdanyn nhw. Mae hefyd wedi fy helpu i godi'r materion hynny yn yr ysgol."* Lucy, Blwyddyn 10, Cynulliad Ieuenctid Sir Benfro

*"Mae'n dda gwybod bod gennych chi rywun yn eich cornel fel bod pobl yn gallu eich cefnogi â phroblem os bydd un yn codi, yn yr ysgol er enghraifft."* Carys, Blwyddyn 13, Cynulliad Ieuenctid Sir Benfro.

## Canfyddiad Allweddol 10: Mae pobl ifanc mewn ysgolion uwchradd yn teimlo'n llai abl i fod yn rhan o benderfyniadau am eu dysgu na'r rhai mewn lleoliadau eraill

- Mae pobl ifanc mewn ysgolion uwchradd yn dangos bod ganddyn nhw lai o deimlad o ddewis ynghylch beth maen nhw'n ei ddysgu na phlant mewn lleoliadau cynradd ac AAA. **Dim ond 29% o'r bobl ifanc mewn ysgolion uwchradd oedd yn cytuno eu bod weithiau'n cael dewis ynghylch beth maen nhw'n ei ddysgu** (o gymharu â 66% mewn ysgolion cynradd ac 85% mewn lleoliadau AAA). Adlewyrchir hynny gan yr athrawon, **gan mai 34% o'r athrawon uwchradd sy'n dweud bod pobl ifanc yn cael dewis ynghylch eu dysgu** (o gymharu â 64% o'r athrawon cynradd a 65% o'r athrawon AAA)
- Yn yr un modd **dim ond 46% o'r disgyblion ysgol uwchradd sy'n cytuno** â'r gosodiad 'Rwy'n cael cyfleoedd i rannu fy marn am fy ngwersi', o gymharu â 78% yn yr ysgolion cynradd a 71% mewn lleoliadau AAA.
- Fodd bynnag, roedd cyfran yr athrawon oedd yn sôn eu bod yn cael adborth ar ôl gwersi mewn gwirionedd yn uwch mewn lleoliadau uwchradd na rhai cynradd, gyda 78% o'r athrawon uwchradd yn dweud hynny. Ond mae'r ffigur is o 61% o athrawon uwchradd oedd yn dweud eu bod yn defnyddio adfyfyrio'r disgyblion i lywio cynlluniau dysgu ac addysgu yn awgrymu, er bod mwyafrif amlwg o ymatebwyr uwchradd yn creu cyfleoedd ar gyfer adborth, bod mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r wybodaeth honno i lywio cynlluniau.

# Astudiaeth Achos: Dysgu trwy ddinasyddiaeth weithredol

Ysgol Ddydd Arbennig yn Nhorfaen ar gyfer plant a phobl ifanc 2-19 oed yw Ysgol Crownbridge. Roedd pobl ifanc yn y cyngor ysgol eisiau cynyddu ymwybyddiaeth o anawsterau defnyddio cadair olwyn yn eu cymuned leol. Cefnogwyd y Swyddog Cyfranogiad yn Nhorfaen gan CRhA Ysgol Crownbridge i sicrhau arian o'r gronfa Atal Troseddau Atgasedd ar gyfer prosiectau cymunedol, fel bod y bobl ifanc yn gallu ymchwilio a chymryd camau i wella hygyrchedd i gadeiriau olwyn yn eu cymuned leol. Gwnaeth yr ysgol gais am gynnwys y prosiect hwn fel rhan o'r dull gweithredu Lleisiau Bach Little Voices a ddefnyddir gan yr Arsyllfa Hawliau Dynol Plant ym Mhrifysgolion Abertawe a Bangor.

## Pobl Ifanc sy'n Ymchwilwyr

Aeth pedwar disgybl ati i gynllunio a chynnal eu gwaith ymchwil yn y maes trwy fynd allan gyda'r PCSO lleol i gasglu tystiolaeth ar gamerâu 'Go Pro' dros gyfnod o 5-6 wythnos. Cyflwynwyd y canfyddiadau mewn adroddiad ymchwil a ffilm ymgyrchu. [LINK TO FILM ON WEBSITE]

## Pobl Ifanc sy'n Ymgyrchwyr

Mae eu hadroddiad yn dangos sut mae eu canfyddiadau'n dangos cyfyngu ar eu hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn; Deddf Cydraddoldeb; Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

## Effaith

Er mwyn rhannu eu tystiolaeth, trefnodd y grŵp gyfarfod yn Siambr y Cyngor gyda dylanwadwyr a llunwyr penderfyniadau allweddol, lle'r ymrwymodd y cyngor i greu newidiadau. Ar hyn o bryd mae'r bobl ifanc yn olrhain hynt yr addunedau a wnaed ar y diwrnod gan y swyddogion a'r rhai oedd yn bresennol.

*"Rydyn ni eisiau dangos ymwybyddiaeth a newid meddylfryd pobl."* Kane, Blwyddyn 13, Aelod o Gyngor Ysgol Crownbridge

*"Rydw i eisiau mynd i'r un llefydd â phawb arall."* Jamie, Blwyddyn 12, Aelod o Gyngor Ysgol Crownbridge

# TRAFODAETH

## Crynodeb o'r meysydd i'w gwella

Er bod llawer mewn ysgolion uwchradd yn gweld cynghorau ysgol fel rhywbeth sy'n helpu i alluogi pobl ifanc i gyfranogi mewn penderfyniadau, mae agweddau dysgwyr at gynghorau ysgol yn fwy negyddol mewn ysgolion uwchradd nag mewn ysgolion cynradd, ac yn amlygu diffyg amser digonol a theimlad bod cyfranogiad yn gallu bod yn aneffeithiol. Ar y cyfan, roedd ymatebion y disgyblion cynradd ac ysgolion AAA yn llawer mwy cadarnhaol i'r holl gwestiynau am gyfranogiad na rhai'r disgyblion uwchradd.

Mae pobl ifanc yn gweld cyfranogiad effeithiol fel rhywbeth buddiol i'w llesiant, a dylai arweinwyr ysgol, staff addysgu a llywodraethwyr roi blaenoriaeth i bwysigrwydd cyfranogiad o safbwynt llesiant. Byddai hyn yn cael ei gefnogi gan gydnabyddiaeth debyg ar ran sefydliadau sy'n cefnogi ysgolion i gyflawni'r dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant, gan gynnwys awdurdodau lleol, y consortia ac Estyn.

Byddai llawer o gynghorau ysgol yn elwa petaen nhw'n fwy amrywiol ac yn fwy cynrychioliadol. Mae angen gwneud mwy i sicrhau bod pobl ifanc sydd â nodweddion gwarchodedig yn cael cyfle cyfartal i gael eu clywed. Gall grwpiau eraill o bobl ifanc gael eu gwthio i'r cyrion hefyd, yn fwyaf amlwg y rhai sydd â llai o hyder academaidd neu gymdeithasol.

Byddai ysgolion uwchradd yn elwa o ystyried sut mae cyfranogiad yn mynd y tu hwnt i gyngor yr ysgol ac yn cysylltu â strwythur ehangach sy'n caniatáu i bob disgybl gyfrannu barn a syniadau, a derbyn gwybodaeth am benderfyniadau a wnaed. Dylai ysgolion sicrhau hefyd bod etholiadau cyngor ysgol yn digwydd yn unol â'r rheoliadau, a gwneud mwy i sicrhau bod etholiadau'n deg ac yn gynrychioliadol.

Gallai llawer o gyrff llywodraethu weithio'n agosach gyda'u cyngor ysgol hefyd i gynyddu'r cyfleoedd i rannu penderfyniadau a chyfathrebu. Ymddengys bod angen datblygu dealltwriaeth a sgiliau llywodraethwyr ynghylch y ffordd orau o gyflawni hyn, a'r ffordd orau i lywodraethwyr cyswllt sy'n ddisgyblion gyfranogi.

Byddai cynghorau ysgol yn elwa o fwy o gyfleoedd i ystyried dysgu ac addysgu, gan fod pobl ifanc mewn ysgolion uwchradd yn teimlo'n llai abl i fod yn rhan o benderfyniadau ynghylch eu cwricwlwm a'u dysgu nag mewn lleoliadau eraill.

## Polisi a'r Cyd-destun Cyfredol ar gyfer Gwelliant

## Adnewyddu a Diwygio

Ym mis Mehefin 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu cynllun adferiad 'adnewyddu a diwygio'. Mae'r cynllun yn nodi sut bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio gwerth £150m o fuddsoddiad ychwanegol yn 2021-22 i helpu'r system addysg i ymadfer wedi pandemig Covid-19. Mae'r aflonyddu aruthrol a fu ar bobl ifanc a lleoliadau addysg yn ystod y pandemig wedi arwain at nifer o ffactorau cystadleuol yn rhoi pwysau ar y lleoliadau hynny, ond ar frig y cynllun adferiad cenedlaethol mae rhoi blaenoriaeth i lesiant pobl ifanc, gyda blaenoriaeth i'w cynnydd wrth ddysgu yn dilyn.

Yr elfen allweddol yw gwrando ar brofiad pobl ifanc a'u galluogi i fod yn rhan o'r penderfyniadau am y ffordd orau o gyflawni hyn. Mae hynny'n wir nid yn unig oherwydd bod amharu o'r math yma yn newydd i'r system addysg fodern yng Nghymru, a bod angen i ni ei ddeall yn well, ond hefyd oherwydd bod tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg am niwroddatblygiad pobl ifanc yn dangos bod ymwneud pobl ifanc â phenderfyniadau yn rhan hanfodol o sicrhau ymyriadau cefnogi llwyddiannus[6]. Bydd cyfranogiad effeithiol, y mae cynghorau ysgol yn rhan bwysig ohono, yn cael effeithiau cadarnhaol ar draws pob agwedd ar brofiad pobl ifanc ym myd addysg. Mae hynny'n cynnwys cefnogi eu llesiant a'u cynnydd wedi'r aflonyddu a achoswyd gan y sefyllfa argyfyngus.

## Cyfranogiad

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf cymerwyd camau pwysig yng Nghymru i alluogi gwell cyfranogiad i bobl ifanc. Dylai'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol, a gafodd eu diweddaru yn 2016, dywys gweithwyr proffesiynol i sicrhau bod profiadau cyfranogiad lleol ledled Cymru yn effeithiol ac yn ystyrlon. Ar lefel genedlaethol, eisteddodd y Senedd Ieuenctid am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2019. Mae hwn yn ddatblygiad eithriadol gadarnhaol i sicrhau cyfranogiad a chynrychiolaeth pobl ifanc ar lefel genedlaethol. Daeth Deddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 ag isafswm oed pleidleisio mewn etholiadau lleol ac yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol i lawr i 16.

Fodd bynnag, ymddengys bod y ffocws cenedlaethol ar gyfranogiad effeithiol mewn ysgolion wedi colli momentwm yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Nid yw hynny'n wir ym mhob man. Roedd adroddiad Estyn yn 2016, Cyfranogiad Disgyblion: canllaw arfer gorau, yn adeiladu ar dri adroddiad gan Estyn ynghylch cyfranogiad, a gyhoeddwyd yn ystod 2008-9, ac yn darparu enghreifftiau a chanllawiau defnyddiol ynghylch sut gall ysgolion ddatblygu cyfranogiad cryf. Trwy eu gwefan, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu gweithgareddau hyfforddi 2011 ar gyfranogiad disgyblion i athrawon, llywodraethwyr a disgyblion, ochr yn ochr â rhai gweithgareddau a chanllawiau eraill sy'n berthnasol i gyfranogiad mewn lleoliadau y tu allan i'r ysgol. Ond nid yw dogfen 2011 *Cyfranogiad Disgyblion — Canllaw Arfer Da* ar gael ar wefan y Llywodraeth bellach, ac ni ddarparwyd fersiwn ddiwygiedig. Mae rhai awdurdodau lleol yn dal i ddefnyddio deunyddiau a chanllawiau hyfforddi hanesyddol yng nghyswllt cynghorau ysgol i ddatblygu dealltwriaeth ymhlith llywodraethwyr, athrawon a disgyblion, ac mae eraill wedi datblygu eu deunyddiau eu hunain. Fodd bynnag, mae ymgynghori ag awdurdodau lleol yn awgrymu ei fod yn deg dweud nad yw darparu adnoddau neu hyfforddiant i ysgolion yn digwydd mor eang nac yn derbyn cymaint o adnoddau ag oedd yn wir yn hanesyddol: nid yw llawer o gynghorau ysgol yn derbyn hyfforddiant nac arweiniad eu hunain, ac nid yw eu hathrawon a'u llywodraethwyr yn derbyn hynny chwaith yng nghyswllt cyfranogiad.

## Cwricwlwm ar gyfer addysg wleidyddol a dinasyddiaeth

O ystyried y cyd-destun hwn, mae'n hanfodol bod cyfranogiad yn rhan annatod o'r Cwricwlwm i Gymru, a bod y cwricwlwm newydd yn caniatáu datblygu addysg wleidyddol a dinasyddiaeth yn llawn. Mae Erthygl 2 o Ddatganiad y CU ar Addysg a Hyfforddiant Hawliau Dynol[7] yn nodi sut dylai addysg hawliau dynol fod yn nod clir i'r addysg hon. Yno nodir bod addysg a hyfforddiant hawliau dynol yn cwmpasu:

[6] Why Interventions to Influence Adolescent Behavior Often Fail but Could Succeed - PubMed (nih.gov)

[7] Penderfyniad a fabwysiadwyd gan y Cynulliad Cyffredinol ar 19 Rhagfyr 2011 (ar adroddiad y Trydydd Pwyllgor (A/66/457)] 66/137. Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar Addysg a Hyfforddiant Hawliau Dynol

a. Addysg am hawliau dynol, sy'n cynnwys darparu gwybodaeth a dealltwriaeth o normau ac egwyddorion hawliau dynol, y gwerthoedd sy'n sylfaen iddynt, a'r dulliau o'u hamddiffyn;
b. Addysg trwy hawliau dynol, sy'n cynnwys dysgu ac addysgu mewn modd sy'n parchu hawliau addysgwyr a dysgwyr;
c. Addysg ar gyfer hawliau dynol, sy'n cynnwys grymuso pobl i fwynhau ac ymarfer eu hawliau, a pharchu a chynnal hawliau pobl eraill.

Gallai penderfyniad y Llywodraeth i gynnwys y nodau a'r egwyddorion hyn yn uniongyrchol yn y Cwricwlwm i Gymru fod yn arwyddocaol ar lefel ryngwladol a rhoi Cymru ar y blaen ym maes addysg hawliau dynol. Ond er mwyn cyflawni'r effaith honno, rhaid i'r Llywodraeth, Awdurdodau Lleol ac Ysgolion weld rôl y cyngor ysgol a chyfranogiad ehangach fel rhan greiddiol, hanfodol o ddysgu a phrofiad yn yr ysgol.

## Dysgu trwy brofiad

Mae profiad o gyngor ysgol (ei ethol; ei weithrediad; a chyfathrebu â'r ysgol ehangach) yn brofiad o ymarferiad democrataidd. I lawer o blant a phobl ifanc, dyma'u profiad mwyaf arwyddocaol o gymryd rhan mewn strwythur democrataidd: mae'n achos o ddysgu trwy hawliau dynol fel yr amlinellwyd gan y Cenhedloedd Unedig uchod. Bydd profiad cadarnhaol, lle mae holl aelodau cymuned yr ysgol yn teimlo eu bod yn gallu cyfranogi, yn brofiad cadarnhaol o strwythur democrataidd. Bydd y gwrthwyneb hefyd yn wir.

## Cyfranogiad wrth lunio'r cwricwlwm

Mae angen cefnogaeth ar ysgolion hefyd, o dan y model sybsidiaredd, i ganiatáu cyfranogiad ar lefel yr ysgol wrth lunio'r cwricwlwm. Mae'r Llywodraeth yn datgan yn glir bod cynnwys pobl ifanc yn gam y dylai pob lleoliad ei gynnwys wrth lunio'r cwricwlwm, a bod hynny '*ynddo'i hun yn brofiad dysgu gwerthfawr, sy'n cefnogi ymholi a meddwl yn feirniadol.*'

Mae canllawiau'r cwricwlwm ar gyfranogiad yn esbonio, *"Mae'n bwysig sylweddoli bod gwahanol lefelau o gyfranogiad, ac y gall dysgwyr gael eu galluogi i fod yn rhan o lunio'r cwricwlwm mewn gwahanol ffyrdd. Gall dysgwyr gael eu hysbysu ynghylch penderfyniadau, gellir ymgynghori â dysgwyr ynghylch penderfyniadau, gallant rannu'r penderfyniadau gydag oedolion, neu gallant fod yn berchen ar benderfyniadau a phennu eu meysydd a'u cwestiynau eu hunain i'w hystyried gan gymuned ehangach yr ysgol. Bydd gwahanol fathau o gyfranogiad yn briodol ar wahanol adegau yn y broses o lunio'r cwricwlwm.*

*Wrth lunio'r cwricwlwm, dylid defnyddio strwythur cyfranogiad hefyd sy'n sicrhau bod pob grŵp o ddysgwyr yn gallu cyfranogi, gan gynnwys y rhai sy'n gallu cael eu gwthio i'r cyrion."*[8]

Mae rhai ysgolion eisoes wedi datblygu strwythurau cyfranogiad sy'n gallu ymateb yn dda i'r her hon. Ond bydd angen i ysgolion eraill ddatblygu'r hyn maen nhw'n ei gynnig o ran cyfranogiad yn sylweddol er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i fod yn rhan o lunio'r cwricwlwm yn y modd a amlinellwyd yng nghanllawiau'r cwricwlwm, ond sydd hefyd yn cyd-fynd â'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol. Bydd defnyddio'r awgrymiadau o'r adroddiad hwn o gymorth i gyflawni hyn.

---

[8] https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/designing-your-curriculum/implementation-and-practical-considerations/

## Llesiant

Dylai cyfranogiad fod yn ganolog hefyd i'r fframwaith ar gyfer gwreiddio dull ysgol gyfan o ymdrin â iechyd meddwl a llesiant. Mae cyfranogiad pobl ifanc ar lefel ysgol yn elfen allweddol o gefnogi eu llesiant. Fel mae pobl ifanc ac ymchwil ehangach yn cyfleu[9], mae cael gwrandawiad a chael eu cymryd o ddifri yn caniatáu datblygu hunanhyder ac ymdeimlad o berthyn.

[9] I gael rhagor o wybodaeth am brofiad pobl ifanc o gyfranogiad a llesiant, ewch i dudalen 17.

# CYNGOR YSGOL GWYCH

Mae'r Comisiynydd Plant wedi gweithio gyda'i Phanel Ymgynghorol o Bobl Ifanc i greu awgrymiadau ar gyfer sut mae cyngor ysgol gwych mewn ysgol uwchradd yn edrych ac yn teimlo. Mae'r awgrymiadau hyn wedi'u seilio ar ganfyddiadau'r adroddiad hwn, enghreifftiau o arfer da, ac egwyddorion Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant i Addysg yng Nghymru.

Mae'r awgrymiadau sy'n dilyn yn dangos sut gallwch chi ddefnyddio egwyddorion dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant i gefnogi eich cyngor ysgol:

## Gwreiddio hawliau plant – sicrhau bod hawliau plant yn ganolog i gyfranogiad mewn ysgolion uwchradd

**Bydd y Pennaeth yn sicrhau bod holl aelodau cymuned yr ysgol (yn staff, disgyblion a llywodraethwyr) yn deall bod cyngor ysgol yn cael ei ffurfio i helpu i gyflawni Erthygl 12 o CCUHP.** Erthygl 12 yw hawl pob plentyn a pherson ifanc i gael lleisio barn ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

**Bydd athrawon mewn ysgolion uwchradd yn cynllunio cyfleoedd dysgu sy'n cysylltu â'r cyngor ysgol ac yn gallu bod yn fodd i gyfranogi ym mhenderfyniadau'r ysgol.** Enghraifft o hyn yw'r astudiaeth achos ar dudalen 15. Gallai integreiddio cyfranogiad i'r dysgu a'r addysgu alluogi'r holl ddisgyblion i fod yn rhan o wneud newidiadau yn eu hysgol neu eu cymuned, a bydd yn helpu i gefnogi pobl ifanc i ddysgu am eu hawliau, trwyddynt, ac ar eu cyfer.

## Cydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu – sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i gyfranogi mewn penderfyniadau yn yr ysgol

**Bydd y cyngor ysgol yn cynnal arolwg dienw o gymuned yr ysgol i weld a oes unrhyw grwpiau o bobl ifanc sy'n teimlo'n llai abl i fod yn rhan o benderfyniadau, a chanfod pam maen nhw'n teimlo eu bod yn methu cymryd rhan.** Yna byddan nhw'n ystyried eu canfyddiadau i weld sut gallan nhw sicrhau bod pawb yn cael eu cynnwys.

**Bydd athro arweiniol cyfranogiad yn gweithio gyda phobl ifanc i roi cynnig ar ddulliau gweithredu newydd fydd yn cynyddu amrywiaeth yng nghyngor yr ysgol a grwpiau cyfranogiad eraill.** Dyma rai syniadau i roi cynnig arnynt gan Banel Ieuenctid y Comisiynydd:

- Galluogi cynrychiolwyr ar y cyngor ysgol i gynrychioli grwpiau eraill yn ogystal â'u blwyddyn. Gallai hynny ddigwydd trwy amlygu ar y papur pleidleisio lle mae ymgeisydd o grŵp blwyddyn yn cynrychioli grŵp diddordeb arbennig neu grŵp lleiafrifol yn ogystal.

- Creu cyfleoedd yn ystod amser tiwtor neu amser cwricwlwm i archwilio cynrychiolaeth amrywiol mewn cyrff etholedig a pham mae hynny'n bwysig;
- Caniatáu gwahanol ffyrdd o gyflwyno cais i fod yn aelod, gan gynnwys ceisiadau dienw heb anerchiadau, fel bod pobl ifanc llai hyderus yn gallu ymuno;
- Galluogi unrhyw berson ifanc sy'n teimlo'n angerddol ynghylch llais y disgybl i ymuno â grŵp cyfochrog, fel bod cyfuniad o gyfleoedd drwy etholiad a rhai heb eu hethol. Mae rhai ysgolion yn defnyddio strwythur Senedd neu Gabinet lle mae pob aelod o'r Senedd (cyngor yr ysgol) yn cysylltu â grŵp cyfranogiad disgyblion gwahanol ac yn adrodd iddo — gan gynnwys grwpiau eco, llysgenhadon chwaraeon, datblygiad dysgu ac addysg a grwpiau cydraddoldeb. Anogir pob disgybl i ymuno ag o leiaf un grŵp;
- Sicrhau bod pobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael y gefnogaeth angenrheidiol i gymryd rhan.

**Bydd yr ysgol yn sicrhau bod y pleidleisio'n gallu digwydd ar ffurf pleidlais gudd.** Nodir hyn yn y rheoliadau ac roedd y bobl ifanc yn yr ymgynghoriad yn cefnogi hyn gan fod pleidleisio dienw yn lleihau'r pwysau i bleidleisio dros bobl benodol neu ffrindiau.

## Grymuso – datblygu galluoedd pobl ifanc fel unigolion fel eu bod yn fwy abl i gyfranogi ac ymgysylltu ag arweinwyr eu hysgol a chorff llywodraethu'r ysgol

**Bydd Cynghorau Ysgol yn defnyddio dogfen y Comisiynydd Plant, Gwneud Gwahaniaeth — Canllaw Person Ifanc ar gyfer Gweithredu i gael syniadau ac offer ar gyfer cynnal cyfarfodydd, ystyried gwahanol syniadau, a gwneud newidiadau maen nhw eisiau eu gweld.**

**Bydd yr awdurdod lleol yn darparu hyfforddiant am rôl llywodraethwyr cyswllt sy'n ddisgyblion.** Bydd hyn ar gael ar gyfer disgyblion sy'n llywodraethwyr cyswllt eu hunain fel bod ganddynt y sgiliau i ymgymryd â'r rôl. Bydd hefyd ar gael ar gyfer penaethiaid ysgolion, cadeiryddion llywodraethwyr ac athrawon cyswllt cyngor ysgol, i'w helpu i wneud y canlynol:

- deall cyfranogiad yng nghyd-destun hawliau plant;
- cefnogi llywodraethwyr sy'n ddisgyblion i gymryd rhan mewn cyfarfodydd;
- sicrhau bod gwaith y llywodraethwyr cyswllt yn cysylltu â chyfarfodydd y cyngor ysgol.

Lle cyflwynir hyfforddiant llywodraethwyr gan gonsortia, dylai'r consortia gynnig yr hyfforddiant hwn.

**Bydd athrawon yn yr ysgol yn cael cyfleoedd dysgu proffesiynol am gyfranogiad effeithiol.** Mae Estyn hefyd wedi nodi angen am hyn[10] er mwyn sicrhau bod lleisiau disgyblion yn cael eu clywed wrth wneud penderfyniadau.

**Bydd Cadeirydd y Corff Llywodraethu yn sicrhau bod disgyblion yn gwybod beth mae eu corff llywodraethu yn ei wneud a sut gall disgyblion gyfrannu ato.** Gallai cadeiryddion weithio gydag athrawon i sicrhau bod disgyblion yn dysgu am drefniadaeth yr ysgol a sut gall disgyblion ryngweithio â'r corff llywodraethu ac fel arall trwy gyngor yr ysgol.

**Bydd y cyngor ysgol yn ystyried strwythur y cyngor a rolau penodol ar gyfer disgyblion.** Mae Panel Ymgynghorol Pobl Ifanc y Comisiynydd yn argymell bod gan bob cyngor Gadeirydd, Is-gadeirydd ac

---

[10] https://www.estyn.gov.wales/thematic-reports/pupil-participation-best-practice-guide

Ysgrifennydd, ac y dylai'r cyngor ymrannu'n is-grwpiau i weithio ar feysydd penodol, i sicrhau mwy o effaith.

**Bydd gan athro cyswllt y cyngor ysgol ddigon o amser i ddatblygu cyfranogiad yn yr ysgol.** Gallai fod angen amser heb addysgu i gyflawni hynny, neu gellid dyrannu mwy o staff ac adnoddau i ddatblygu'r gwaith yma.

## Cyfranogiad – sicrhau bod barn pobl ifanc yn cael ei chymryd i ystyriaeth mewn modd ystyrlon

**Bydd cyngor yr ysgol yn cael lleisio barn ar lesiant yn yr ysgol, yn unol â'r Fframwaith ar gyfer dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol.**

**Bydd arweinwyr ysgol yn agor cyfleoedd i bobl ifanc fod yn rhan o lunio'r cwricwlwm,** yn unol â'r cwricwlwm newydd. Bydd hyn yn cynnwys cyngor yr ysgol, ond ni fydd wedi'i gyfyngu i'r disgyblion hynny; bydd holl gymuned yr ysgol yn ymwneud â hyn.

**Bydd Estyn yn holi am gyfranogiad disgyblion mewn penderfyniadau yn yr holiadur i ddisgyblion, i weld a oes unrhyw grwpiau o blant sydd ddim yn teimlo'n abl i gymryd rhan.** Wrth arolygu mae Estyn eisoes yn ystyried rôl y cyngor ysgol, a hefyd yn asesu cyfranogiad ar draws yr ysgol. Gallai'r trefniadau presennol gael eu datblygu trwy ofyn barn yr holl ddisgyblion, er mwyn i'r arolygwyr fedru asesu cyfranogiad yr holl bobl ifanc yng nghymuned yr ysgol. Dylai Estyn ddadansoddi'r wybodaeth hon er mwyn asesu a yw grwpiau penodol o bobl ifanc yn teimlo'n llai abl i gyfranogi.

**Bydd cynghorau ysgol a thimau arweinyddiaeth ysgolion yn defnyddio strwythur a fydd yn sicrhau bod cyngor yr ysgol yn ymgysylltu â phoblogaeth ehangach yr ysgol er mwyn llywio penderfyniadau a rhoi adborth arnynt.** Dyma rai syniadau gan Banel Ymgynghorol y Comisiynydd:

- dylai cynghorau ysgol fod yn isafswm, a dylai fod grwpiau cyfranogiad eraill, er enghraifft fforwm ieuenctid sy'n annog disgyblion llai hyderus i gymryd rhan, a lle gall syniadau ar gyfer y cyngor ysgol gael eu trafod;
- arolygon;
- clinigau ymgynghori galw heibio;
- ffordd reolaidd o roi adborth ar benderfyniadau i'r ysgol, fel hysbysfwrdd Fe Ddwedsoch Chi/Fe Wnaethon Ni, neu trwy amser tiwtor;
- dylai cynghorau ysgol ganiatáu i unrhyw un roi syniadau neu argymhellion iddyn nhw, er enghraifft trwy gyfeiriad e-bost neu flwch awgrymiadau.

**Nid athrawon fydd yn dewis aelodau o'r cyngor ysgol neu lywodraethwyr cyswllt sy'n ddisgyblion.** Mae'r rheoliadau'n glir mai'r disgyblion ddylai ethol aelodau'r cyngor ysgol, ac mai aelodau'r cyngor sy'n ethol y llywodraethwyr cyswllt sy'n ddisgyblion.

**Bydd yr awdurdod lleol yn chwilio am ffyrdd o gysylltu grwpiau cyfranogiad lleol fel eu fforwm ieuenctid â chynghorau ysgol, ac yn creu cyfleoedd i ddathlu enghreifftiau o gyfranogiad effeithiol mewn ysgolion.**

## Atebolrwydd – sicrhau bod cyrff llywodraethu ac arweinwyr ysgolion yn cynnal cynghorau ysgol effeithiol ac yn atebol iddynt

**Bydd cadeiryddion cyrff llywodraethu yn cynnwys cyngor yr ysgol yn eu gwaith.** Bydd cadeiryddion yn gweithio gyda'u cyngor ysgol i weld a ddylai llywodraethwr cyswllt ddod i gyfarfodydd cyngor yr ysgol, a beth yw'r ffordd orau o roi gwybod i gyngor yr ysgol am y penderfyniadau maen nhw wedi'u gwneud.

**Bydd Pennaeth yr ysgol a Chadeirydd y Corff Llywodraethu yn creu cyfleoedd i gyngor yr ysgol gael gwybod sut mae eu cyfranogiad wedi dylanwadu ar benderfyniadau.** Mae ein Panel Ymgynghorol yn awgrymu bod y cyfleoedd hyn yn cynnwys:

- darparu adborth am sut maen nhw wedi symud awgrymiadau'r cyngor ysgol ymlaen (er enghraifft bwrdd arddangos Fe Ddwedsoch Chi, Fe Wnaethon Ni, sy'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd);
- Mynychu cyfarfodydd cyngor yr ysgol i siarad am waith y Llywodraethwyr;
- Trafod cofnodion cyfarfodydd cyngor yr ysgol mewn cyfarfodydd Llywodraethwyr;
- Y Pennaeth neu Gadeirydd y Llywodraethwyr yn dod i gyfarfod cyngor yr ysgol ac yn cynnal sesiwn 'cadair boeth', fel bod modd i aelodau'r cyngor gyflwyno cwestiynau naill ai wyneb yn wyneb neu'n ddienw, e.e. trwy flwch cwestiynau;
- Y Pennaeth neu Gadeirydd y Llywodraethwyr yn esbonio'r rhesymau pam nad yw rhai o awgrymiadau cyngor yr ysgol wedi cael eu symud ymlaen.

**Bydd cadeiryddion cyrff llywodraethu yn galluogi disgyblion sy'n llywodraethwyr cyswllt i gymryd rhan mewn cyfarfodydd, yn unol â'r Rheoliadau.**

# Adnoddau Pellach

Mae'r adran hon yn rhestru sut gall Comisiynydd Plant Cymru gefnogi cyfranogiad mewn ysgolion uwchradd.

Gwneud Gwahaniaeth: Canllaw Person Ifanc i Weithredu

Datblygwyd y canllaw hwn yn benodol i roi sylw i rai o'r materion a godwyd yn yr adroddiad hwn. Gall lleoliadau ysgol a chymunedol ei ddefnyddio i helpu pobl ifanc i godi eu lleisiau ynghylch materion sy'n bwysig iddyn nhw. Fel rhan o'r cwricwlwm newydd bydd hyn yn caniatáu profiadau a dysgu mewn perthynas â'r datganiad canlynol Beth sy'n Bwysig ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau: ***Mae dinasyddion gwybodus, hunan-ymwybodol yn ymgysylltu â'r heriau a'r cyfleoedd mae'r ddynoliaeth yn eu hwynebu, ac yn gallu gweithredu mewn modd pwyllog, moesegol. (Beth sy'n Bwysig 5)."***

Y Ffordd Gywir: dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant i addysg yng Nghymru

Canllawiau ymarferol i leoliadau addysg yw'r rhain, gyda syniadau ac astudiaethau achos a seiliwyd ar egwyddorion CCUHP.

Cynlluniau Llysgenhadon Myfyrwyr y Comisiynydd Plant

Mae'r cynllun di-dâl hwn yn hybu hawliau plant yn yr ysgol uwchradd ac yn galluogi pobl ifanc i lywio gwaith parhaus y Comisiynydd.

Hawliau Dynol Plant yn y Cwricwlwm i Gymru

Mae'r papur byr yma i athrawon yn dangos sut mae'r Pedwar Diben a'r Meysydd Dysgu a Phrofiad yn hyrwyddo erthyglau penodol ac egwyddorion CCUHP.

Adnoddau dysgu proffesiynol i athrawon

Mae'r Comisiynydd Plant wedi gweithio gydag athrawon yn ardal consortiwm EAS i beilota'r sesiynau hyfforddiant ar-lein hyn, sy'n gallu cael eu defnyddio i helpu cydweithwyr i ddysgu mwy am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a rôl Comisiynydd Plant Cymru.

Adnoddau dysgu ac addysgu ar gyfer athrawon ysgol uwchradd

Adnoddau i helpu i ddysgu pobl ifanc 11+ am eu hawliau. Maen nhw'n cynnwys adnoddau am berthnasoedd cadarnhaol, seiberfwlio, Islamoffobia, a Her Sgiliau Cymunedol ar gyfer Bagloriaeth Cymru.